

# Adnewyddu Trwydded Channel 4

Ymgynghoriad ar gwotâu Gwnaed y tu allan i  
Loegr (MoE) Channel 4

## Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd 19 Gorffennaf 2024

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 16 Awst 2024

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg .....	3
2. Cyflwyniad .....	4
3. Y cyd-destun rydym yn adnewyddu'r drwydded ynddo.....	8
4. Cynnig newydd ar gyfer y cwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr.....	13

## Atodiad

A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn.....	35
A2. Egwyddorion ymgynghori Ofcom .....	38
A3. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad .....	39
A4. Cwestiynau'r ymgynghoriad .....	41

# 1. Trosolwg

- 1.1 Bydd trwydded bresennol Channel 4 yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024. Mae Ofcom yn gyfrifol am bennu hyd ac amodau trwydded newydd ar gyfer Channel 4 Television Corporation (C4C) i ddarparu'r sianel gwasanaeth cyhoeddus, Channel 4.
- 1.2 Fe wnaethom ymgynghori ar ein cynigion ar gyfer trwydded newydd Channel 4 ym mis Rhagfyr 2023 ('ymgyngoriad mis Rhagfyr'). Roedd y cynigion yn ceisio taro cydbwysedd rhwng rhoi mwy o hyblygrwydd i C4C yn y dyfodol i ddatblygu ei strategaeth cynnwys a dosbarthu er mwyn cefnogi ei drawsnewidiad digidol, gan barhau i sicrhau ei fuddsoddiad mewn cynnwys unigryw yn y DU, a'r gwaith o gyflawni elfennau craidd ei allbwn llinol ar Channel 4. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw, rydym bellach yn ymgynghori ar gynnig diwygiedig ar gyfer cwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr ('MoE') Channel 4 ar gyfer oriau a gwariant.
- 1.3 Nid ydym wedi gwneud penderfyniadau ynghylch yr un o'r cynigion a wnaed yn ymgynghoriad mis Rhagfyr eto. Byddwn yn cyhoeddi datganiad sy'n penderfynu ar hyd ac amodau trwydded newydd Channel 4 yn yr hydref.

## Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

- Rydym yn cynnig **cynyddu'r gofynion ar Channel 4** mewn perthynas â chynhyrchu rhaglenni yn y DU y tu allan i Loegr o 2030 ymlaen.
- Rydym yn cynnig, **o 2030 ymlaen, y bydd yn rhaid i o leiaf 12% o'r oriau o raglenni ym mhob blwyddyn galendr** a gaiff eu gwneud yn y DU i'w gwyllo ar wasanaeth Channel 4 gael eu cynhyrchu y tu allan i Loegr, ac y bydd yn rhaid i **o leiaf 12% o'r gwariant ar raglenni** a gaiff eu gwneud yn y DU i'w gwyllo ar y gwasanaeth gael ei ddyrannu i gynhyrchu rhaglenni y tu allan i Loegr a defnyddio canolfannau cynhyrchu yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.
- Rydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i C4C **fynd ati bob blwyddyn i nodi ei strategaeth ar gyfer comisiynu** yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon dros y flwyddyn i ddod a sut mae wedi cyflawni ei strategaeth ar gyfer y flwyddyn flaenorol, er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd i'w randdeiliaid allweddol.

## 2. Cyflwyniad

### Cefndir yr ymgynghoriad hwn

---

- 2.1 Daw'r drwydded bresennol ar gyfer Channel 4 i ben ar ddiwedd 2024. O dan adran 231 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ('y Ddeddf'), mae gan Ofcom y pŵer i adnewyddu trwydded Channel 4 am gyfnod pellach. Wrth wneud hynny, rhaid i Ofcom wneud y canlynol:
- pennu amodau ar gyfer y drwydded y mae Ofcom o'r farn eu bod yn briodol;
  - pennu hyd y drwydded newydd, a all bara cyhyd ag y gwêl Ofcom yn briodol.
- 2.2 Ar 6 Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Ofcom [ymgynghoriad](#) ar adnewyddu trwydded Channel 4. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 14 Chwefror 2024. Cafodd Ofcom 22 o ymatebion i'r ymgynghoriad; mae'r ymatebion nad oeddent yn gyfrinachol wedi cael eu cyhoeddi ar ein [gwefan](#). Cawsom nifer o sylwadau ychwanegol gan randdeiliaid ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Ar ben hynny, [rhannodd nifer o Arglwyddi eu safbwyntiau](#) ar y cynigion yn ystod hyn y Bil Cyfryngau drwy Dŷ'r Arglwyddi, ac rydym wedi ei hystyried.
- 2.3 Roedd llawer o'r ymatebion a gawsom yn canolbwyntio ar ein cynnig i gadw cwotâu cynhyrchu rhanbarthol Channel 4 ar eu lefel bresennol. Yn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr, fe wnaethom nodi ein bod yn cynnig cadw'r cwotâu Gwnaed y tu allan i Lundain ('MoL') ar 35% o'r oriau a'r gwariant a'r cwotâu MoE ar 9% o'r oriau a'r gwariant. Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid o'r farn y dylid codi'r cwotâu hyn i 50% ac 16% yn y drefn honno, gyda rhai'n dadlau o blaid cyflwyno is-gwotâu ar gyfer pob un o'r gwledydd.<sup>1</sup> Trafodwn safbwyntiau rhanddeiliaid ar yr opsiynau ar gyfer y cwotâu MoE yn adran 4.
- 2.4 Ers cyhoeddi'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr, rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid ar y pwyntiau hyn. Rydym hefyd wedi gofyn i C4C am ragor o wybodaeth am ei gyflwyniadau blaenorol i ni ar gynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, yn ogystal â gwybodaeth ariannol wedi'i diweddarau, ac mae wedi darparu hyn ('ymateb i gais am wybodaeth ym mis Ebrill' C4C). Yn ystod y broses hon, mae C4C wedi diwygio ei farn gychwynnol y dylid cadw'r cwotâu MoE presennol ar gyfer cyfnod nesaf y drwydded yn ei gyfarwydd ac wedi awgrymu y gallai fodloni lefelau cwota MoE o 12% o'r oriau a'r gwariant erbyn 2030. Mae wedi darparu cyflwyniad ('cyflwyniad mis Mai 2024' C4C) yn esbonio pam mae'n credu bod y cynnydd hwn yn briodol ac yn gyflawnadwy. Ar ein cais ni, darparodd ddadansoddiad a thystiolaeth bellach i ategu hyn ('cyflwyniad mis Mehefin 2024' C4C ac 'ymateb i gais am wybodaeth ym mis Gorffennaf' C4C).
- 2.5 Ar ôl ystyried yn ofalus yr ymatebion i ymgynghoriad mis Rhagfyr, y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan C4C a'i awgrym newydd, rydym bellach yn cynnig cynyddu cwotâu MoE Channel 4 i 12% o'r oriau a'r gwariant o 2030 ymlaen.
- 2.6 Rydym yn ystyried y rhyngweithio rhwng y cynnig ar gyfer y cwotâu MoE yn yr ymgynghoriad hwn a'r cynnig ar gyfer y cwotâu MoL a nodwyd gennym yn ymgynghoriad mis Rhagfyr, ac yn mynd i'r afael â hyn lle y bo'n berthnasol. Byddwn yn ystyried unrhyw sylwadau newydd sy'n

---

<sup>1</sup> Yn yr ymgynghoriad hwn, mae 'gwledydd' yn cyfeirio at Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

codi pwyntiau ynglŷn â'n cynnig ym mis Rhagfyr ar gyfer y cwotâu MoL yng ngoleuni'r cynnig ar gyfer y cwotâu MoE yn yr ymgynghoriad hwn.

- 2.7 Nid ydym yn ymgynghori ar gynigion newydd ar gyfer unrhyw amodau trwydded eraill nac ar hyd y drwydded. O ystyried cwmpas penodol yr ymgynghoriad hwn, daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 16 Awst 2024. Ar ôl ystyried yr ymatebion, byddwn yn cyhoeddi datganiad terfynol ar y mater hwn, a'r holl faterion eraill a gafodd eu cynnwys yn ymgynghoriad mis Rhagfyr, yn yr hydref.

## Effaith ein cynigion

---

- 2.8 Mae Adran 7 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal a chyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom.
- 2.9 Yn fwy cyffredinol, mae asesiadau o'r effaith yn rhan o arfer llunio polisiau da ac, felly, rydym yn disgwyl eu cynnal yng nghyswllt mwyafrif helaeth o'n cynigion. Rydym yn defnyddio asesiadau effaith i'n helpu i ddeall ac asesu effaith bosibl ein penderfyniadau polisi cyn i ni eu gwneud. Maent hefyd yn ein helpu i esbonio'r penderfyniadau polisi rydym wedi penderfynu eu gwneud a pham rydym yn credu mai'r penderfyniadau hynny sy'n cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion perthnasol yn y ffordd sy'n tarfu leiaf. Mae ein canllawiau ar asesu effaith yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer asesu a chyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig.
- 2.10 Mae'r dyletswyddau perthnasol mewn perthynas â'r cynnig sydd dan sylw yn ein hymgynghoriad wedi'u nodi yn adrannau 3 a 4.
- 2.11 Ers mis Mai 2024, mae gan Ofcom ddyletswydd statudol newydd i ystyried pa mor ddymunol yw hybu twf economaidd wrth gyflawni swyddogaethau rheoleiddio penodol.<sup>2</sup> Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid i Ofcom ystyried pwysigrwydd hybu twf economaidd a sicrhau bod unrhyw gamau rheoleiddio a gymerwn yn rhai angenrheidiol a chymesur.
- 2.12 Fel yr esboniwn yn fwy llawn yn yr ymgynghoriad hwn drwyddo draw, rydym wedi ystyried effaith y cynnig hwn ar yr economïau ym mhob un o'r gwledydd ac nid ydym yn disgwyl i'r cynnydd yn y cwota MoE gael effaith negyddol sylweddol ar dwf yn y DU yn ei chyfanrwydd. Er ei bod yn bosibl y bydd rhywfaint o aiddosbarthu budd economaidd rhwng gwahanol ranbarthau'r DU, rydym yn disgwyl y bydd y cynnig i gynyddu cwotâu MoE Channel 4 yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar yr economïau creadigol yn y gwledydd ac y gallai gael effaith gadarnhaol ar gynrychiolaeth a phortreadu cynulleidfaoedd yn yr ardaloedd hynny (gweler paragraff 4.63).
- 2.13 Ar yr un pryd, rydym o'r farn bod ein cynnig yn rhoi digon o hyblygrwydd i C4C ddatblygu a gwireddu ei strategaeth 'digidol yn gyntaf' ddiweddaraf, sef *Fast Forward* (gweler paragraff 3.8 isod) er mwyn iddo allu parhau i gyflawni cylch gwaith Channel 4 a'i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau (gweler paragraffau 3.2-3.4 isod) dros gyfnod y drwydded.
- 2.14 Mae ein hasesiad manwl o effaith ein cynnig wedi'i nodi yn adran 4.

---

<sup>2</sup> O dan adran 108 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015. Mae Gorchymyn Twf Economaidd (Swyddogaethau Rheoleiddio) (Diwygio) 2024 yn cymhwyso'r ddyletswydd a nodir yn adran 108 at Ofcom.

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

- 2.15 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ('Deddf 2010') yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchoddedig canlynol: oed; anabled; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom roi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.
- 2.16 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 ('Deddf 1998') hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategoriâu a amlinellir yn Neddf 1998. Mae [Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon](#) Ofcom yn esbonio sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.
- 2.17 Er mwyn ein helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf 2010 a Deddf 1998, rydym yn asesu effaith ein cynigion ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig ac, yn benodol, a allant wahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da.
- 2.18 Wrth feddwl am gydraddoldeb, rydym hefyd yn meddwl yn fwy eang am yr effeithiau posibl ar wahanol grwpiau o bobl (gweler paragraff 4.7 yn ein [canllawiau ar asesu effaith](#)). Yn benodol, mae adran 3(4) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi sylw i anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl wrth gyflawni ein dyletswyddau, fel y bo'n berthnasol dan yr amgylchiadau yn ein tyb ni. Mae'r rhain yn cynnwys:
- natur fregus plant ac eraill y mae eu hamgylchiadau yn ein barn ni yn golygu bod angen gwarchodaeth arbennig arnynt;
  - anghenion pobl anabl, pobl hŷn a phobl sydd ar incwm isel;
  - gwahanol fuddiannau pobl mewn gwahanol rannau o'r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.
- 2.19 Ymatebodd nifer o randdeiliaid i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn ymgynghoriad mis Rhagfyr â phryderon y gallai ein cynnig ynghylch MoE arwain at effeithiau negyddol ar gwmnïau cynhyrchu a chynulleidfaoedd yn y gwledydd.<sup>3</sup>
- 2.20 Rydym o'r farn y gall ein cynnig i gynyddu cwotâu MoE C4C gael effaith gadarnhaol ar yr economi greadigol yn y gwledydd. Gallai'r cynigion hefyd wella'r ffordd y caiff bywydau a phryderon gwahanol gymunedau a'u diwylliannau a'u traddodiadau eu hadlewyrchu a'u cynrychioli i wylwyr neu ddinasyddion yn y DU (fel y trafodir ym mharagraff 4.63 isod).
- 2.21 Nodwn ei bod hefyd yn bosibl y gallai cynyddu cwotâu MoE Channel 4 olygu y bydd llai o gynhyrchu ar gyfer Channel 4 yn digwydd yn rhanbarthau Lloegr neu Lundain, a all gael effaith negyddol ar yr economi greadigol ac ar gynulleidfaoedd sy'n byw yn yr ardaloedd hynny.

---

<sup>3</sup> Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t.5; Ymateb TAC i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t.2-4; Ymateb Cymru Greadigol i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t.1.

- 2.22 Rydym wedi asesu effaith ein cynigion yn fwy manwl yn adran 4 y ddogfen hon. Byddem yn croesawu ymatebion i'n hymgyngoriad ar yr effaith bosibl ar y grwpiau a nodir, ac ar ffyrdd y gallem liniaru neu ddileu'r effaith hon.
- 2.23 Gall Ofcom ddarparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau ar gais, e.e. PDF hygyrch, print bras, hawdd ei ddeall, recordiad sain neu braille. Os rhowch wybod i ni pa wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac ym mha fformat, byddwn yn ystyried y cais ac yn ymateb o fewn 21 diwrnod a chyn gynted â phosibl.

**Cwestiwn 1 yr Ymgynghoriad:**

Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r effaith bosibl ar grwpiau penodol o bobl?

Rhowch resymau dros eich ymateb, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol.

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

- 2.24 Gwnaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sefydlu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gosod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Rydym o'r farn na fydd y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn ar gyfer adnewyddu trwydded Channel 4 yn cael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, nac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nid yw cylch gwaith C4C yn cynnwys rhaglenni Cymraeg (S4C yw'r gwasanaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg) ac nid yw trwydded Channel 4 yn cynnwys unrhyw amodau sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

**Cwestiwn 2 yr Ymgynghoriad:**

Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r effaith ar y Gymraeg?

Rhowch resymau dros eich ymateb, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol.

## Gwybodaeth am y ddogfen hon

- 2.25 Mae gweddill y ddogfen hon yn cynnwys y canlynol:

- Mae Adran 3 yn nodi'r cyd-destun ar gyfer adnewyddu trwydded Channel 4 a sut mae'r cyd-destun hwn wedi newid ers i ni adnewyddu'r drwydded ddiwethaf.
- Mae Adran 4 yn nodi ein cynigion ar gyfer cwota MoE newydd, gan gynnwys ein dadansoddiad o'r sefyllfa ariannol mewn perthynas â chwota MoE newydd.

- 2.26 Mae'r atodiadau ategol yn cynnig arweiniad ar sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn:

- Atodiad 1 – Ymateb i'r ymgynghoriad hwn
- Atodiad 2 – Egwyddorion ymgynghori Ofcom
- Atodiad 3 – Dalen cyflwyno'r ymgynghoriad
- Atodiad 4 – Cwestiynau'r ymgynghoriad

# 3. Y cyd-destun rydym yn adnewyddu'r drwydded ynddo

## Cylch gwaith a rhwymedigaethau Channel 4

---

- 3.1 Mae C4C yn gorff nid-er-elw sydd ym mherchnogaeth y cyhoedd ac sy'n cael ei ariannu drwy refeniw masnachol. Lanswyd ei brif sianel, sef Channel 4, yn 1982 gyda'r nod o ymestyn y dewis sydd ar gael i wylwyr, gan apelio at chwaethau a diddordebau nad yw darlledwyr eraill yn darparu ar eu cyfer yn gyffredinol a thrwy hynny annog arloesedd a datblygiad y sector cynhyrchu annibynnol. Ers hynny, mae C4C wedi lansio amrywiaeth o sianeli portffolio<sup>4</sup> a gwasanaeth ffrydio, y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn fel Channel 4 Streaming (All4 gynt).<sup>5</sup>
- 3.2 Mae gan Channel 4 gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigryw a phenodol ac mae'n cyfrannu at ddibenion cyffredinol darlledu gwasanaeth cyhoeddus.<sup>6</sup> Mae'r Ddeddf yn rhagweld y caiff y dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus eu cyflawni ar y cyd gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus er mwyn sicrhau'r amcanion a nodir yn adran 264(6) o'r Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys darparu gwasanaethau teledu gwasanaeth cyhoeddus sydd, gyda'i gilydd: yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu; yn adlewyrchu gweithgarwch diwylliannol yn y DU a'i hamrywiaeth; ac yn hwyluso, i raddau priodol, ddealltwriaeth ddinesig a thrafodaeth deg a gwybodus ar newyddion a materion cyfoes.
- 3.3 Cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus Channel 4 yw darparu amrywiaeth eang o raglenni amrywiol o safon uchel sydd, yn benodol: yn dangos arloesedd, dulliau arbrofi a chreadigrwydd o ran ffurf a chynnwys rhaglenni; yn apelio at chwaethau a diddordebau cymdeithas ddiwylliannol amrywiol; yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr angen i sianeli gwasanaeth cyhoeddus gynnwys rhaglenni addysgol; ac yn arddangos cymeriad unigryw.<sup>7</sup> Mae rhagor o rwymedigaethau penodol wedi'u nodi yn y drwydded darlledu ar gyfer Channel 4.
- 3.4 Mae gan C4C hefyd amrywiaeth o ddyletswyddau cynnwys cyfryngau statudol y gall eu cyflawni ar draws unrhyw wasanaethau darlledu neu ar-lein,<sup>8</sup> gan gynnwys Channel 4 Streaming.<sup>9</sup> Mae'r rhain yn cynnwys dyletswyddau i:
- a) wneud amrywiaeth eang o gynnwys o safon uchel sy'n apelio at chwaethau a diddordebau cymdeithas sy'n ddiwylliannol amrywiol;

---

<sup>4</sup> Mae'r rhain yn cynnwys E4, E4 Extra, More4, Film4, a 4seven. Maent hefyd yn cynnwys The Box, Box Upfront, 4Music, Kerrang, Kiss TV, a Magic TV, a gafodd eu caffael yn llawn gan C4C yn 2019.

<sup>5</sup> Tudalen we: [Channel 4 brings iconic blocks back together for single brand streaming future](#).

<sup>6</sup> Nodir y dibenion hyn yn adran 264(4) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

<sup>7</sup> Adran 265(3) o'r Ddeddf. Rhaid i drwydded Channel 4 gynnwys amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i C4C gyflawni cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus Channel 4.

<sup>8</sup> Gwasanaethau rhaglenni ar-alw a gwasanaethau eraill a gaiff eu darparu drwy'r rhyngwrwyd lle y bydd rhywun yn arfer rheolaeth olygyddol dros y deunyddiau sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth yw'r gwasanaethau ar-lein perthnasol.

<sup>9</sup> Mae'r dyletswyddau cynnwys cyfryngau wedi'u nodi yn adran 198A o'r Ddeddf.



- b) darparu newyddion a materion cyfoes;
- c) darparu cynnwys sy'n apelio at blant hŷn ac oedolion ifanc;
- d) gwneud, darlledu a dosbarthu ffilmiau o safon uchel, y bwriedir iddynt gael eu dangos i gynulleidfaoedd yn y DU, a darlledu a dosbarthu ffilmiau (gan gynnwys ffilmiau trydydd parti) sy'n adlewyrchu gweithgarwch diwylliannol yn y DU i gynulleidfaoedd;
- e) helpu i ddatblygu pobl sydd â thalent greadigol;
- f) hyrwyddo barn wahanol a safbwyntiau newydd;
- g) hyrwyddo mesurau y bwriedir iddynt sicrhau bod pobl yn wybodus a bod ganddynt gymhelliant i gymryd rhan mewn cymdeithas;
- h) cefnogi ac ysgogi dadl ar sail gwybodaeth ar amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys drwy ddarparu gwybodaeth a safbwyntiau o bob rhan o'r byd a herio safbwyntiau sydd wedi ennill eu plwyf.

3.5 Mae [Deddf Cyfryngau 2024](#), a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 24 Mai 2024, yn galluogi newidiadau i'r ffordd y mae C4C yn cyflawni ei rwymedigaethau ac i'w fodel gweithredu. Mae'n diweddarau'r fframwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn ffordd a fydd yn cefnogi C4C yn ei drawsnewidiad digidol drwy alluogi darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gyflawni eu cylchoedd gwaith gwasanaeth cyhoeddus ar draws ystod ehangach o wasanaethau, gan gynnwys llwyfannau ar-lein trydydd parti. Mae hefyd yn cyflwyno trefn newydd i sicrhau bod cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus byw ac ar-alw ar gael ac yn cael amlygrwydd ar lwyfannau teledu clyfar mawr, gan ategu'r rheolau amlygrwydd presennol ar gyfer amserlenni rhaglenni electronig (EPG). Ar ben hynny, mae'r Ddeddf Cyfryngau yn dileu'r cyfyngiad presennol ar C4C mewn perthynas â gwneud rhaglenni i'w darlledu ar Channel 4, sef y 'cyfyngiad darlledwr-gyhoeddwr',<sup>10</sup> sydd â'r potensial i greu newid sylweddol i'w fodel gweithredu. Pan ddaw'r darpariaethau hyn i rym, bydd Ofcom yn eu rhoi ar waith cyn gynted â phosibl.<sup>11</sup>

## Cyd-destun y Farchnad

3.6 Fel y nodwyd gennym yn ymgynghoriad mis Rhagfyr, mae'r dirwedd ddarlledu yn wahanol iawn yn 2024 o gymharu â 2014, pan gafodd trwydded Channel 4 ei hadnewyddu ddiwethaf. Mae cynulleidfaoedd (ac yn enwedig y rhai mewn grwpiau oedran iau) yn gwylio llawer llai o deledu darlledu llinol, gan droi fwyfwy at wyllo ar-alw. Ar yr un pryd, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu cystadleuaeth gynyddol am sylw cynulleidfaoedd gan wasanaethau ffrydio byd-eang fel Netflix, gan roi cynaliadwyedd system darlledu gwasanaeth cyhoeddus y DU dan bwysau. Mewn ymateb i'r newidiadau hyn, mae pob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar wahanol gamau yn y broses o newid o fodel darparu llinol yn bennaf i un digidol yn gyntaf. Mae cynulleidfa graidd C4C yn gwyro tuag at bobl iau na'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, sy'n golygu bod yr angen iddo sicrhau trawsnewidiad digidol llwyddiannus yn fwy dybryd byth. Roedd ymhlith y cyntaf i fynegi strategaeth glir sy'n blaenoriaethu twf digidol dros feintiau cynulleidfaoedd llinol. Dyma un o

<sup>10</sup> Nodir y cyfyngiad yn adran 295 o'r Ddeddf a rhaid iddo fod yn un o amodau trwydded Channel 4. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i C4C beidio â chymryd rhan, ac eithrio i'r graddau y bydd Ofcom yn eu caniatáu, yn y broses o wneud rhaglenni i'w darlledu ar Channel 4.

<sup>11</sup> Ym mis Chwefror 2024, gwnaethom gyhoeddi [Y Bil Cyfryngau: Map Ofcom tuag at reoleiddio](#) sy'n nodi ein cynllun lefel uchel ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Cyfryngau.

egwyddorion craidd ei strategaeth ddiweddaraf, sef [Fast Forward](#) (gweler paragraff 3.8 isod).

- 3.7 Mae pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn wynebu amodau macro-economaidd heriol, sy'n adlewyrchu dirywiad yn y farchnad hysbysebu ar y teledu yn dilyn adferiad ar ôl COVID-19 yn 2021. Lleihaodd gwariant yn y farchnad hysbysebu ar y teledu 8.9% yn 2023 i £4.9bn (o £5.38bn y flwyddyn flaenorol).<sup>12</sup> Cafodd hyn ei sbarduno gan leihad sylweddol o 13.6% mewn gwariant ar deledu llinol yn 2023, i £3.9bn. Cynyddodd gwariant ar hysbysebu ar lwyfannau darlledu fideo-ar-alw (BVoD) i £979.6m, sydd 15.9% yn uwch na'r ffigur yn 2022, gan barhau â thuedd o dwf cadarn, ond nid yw hyn yn gwrthbwysu gostyngiadau mewn gwariant ar deledu llinol. Mae model gweithredu presennol C4C, sy'n dibynnu'n bennaf ar gyllid drwy hysbysebu, yn golygu ei fod yn arbennig o agored i amrywiadau yn y farchnad hysbysebu. Ers ymgynghoriad mis Rhagfyr, fel rhan o'i strategaeth *Fast Forward*, mae C4C yn y broses o wneud penderfyniadau heriol er mwyn lleihau costau busnes a diogelu ei gynaliadwyedd, gan gynnwys dileu swyddi staff (yn Llundain yn bennaf)<sup>13</sup> ac, ar wahân, mae wedi datgomisiynu nifer o gyfresi nad oeddent yn perfformio cystal ar-alw, fel *Steph's Packed Lunch*.<sup>14</sup>

## Datblygiad strategaeth ddigidol C4C

---

- 3.8 Ers cyhoeddi ymgynghoriad mis Rhagfyr, mae C4C wedi lansio ei strategaeth newydd, sef *Fast Forward*. Er i'w strategaeth flaenorol (a lanswyd ym mis Tachwedd 2020), sef [Future 4](#), ddangos bod C4C yn newid ei ffocws o ddarlledu traddodiadol i ddarlledu digidol, bwriedir i'r strategaeth newydd gyflymu trawsnewidiad C4C i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus digidol yn gyntaf erbyn 2030, y mae'n dweud y bydd yn sicrhau ei fod yn rheoli datblygiadau o ran arferion gwyllo cynulleidfaoedd ac yn sefyll allan mewn marchnad ehangach gynyddol orlawn. Mae'r strategaeth yn cynnwys y congffeini allweddol canlynol:

- Twf a thrawsnewidiad digidol: gan gynnwys symud buddsoddiad tuag at gomisiynu digidol yn gyntaf sy'n perfformio'n dda ar ei wasanaeth ffrydio a chanolbwyntio ar lai o deitlau, ond rhai sy'n cael mwy o effaith.
- Busnes newydd amrywiol: gan gynnwys archwilio'r posibilrwydd o symud i mewn i berchnogaeth eiddo deallusol a thyfu haen tanysgrifio ei wasanaeth ffrydio.
- Ail-lunio'r busnes ar gyfer byd digidol yn gyntaf: gan gynnwys lleihau nifer y bobl (mewn hen weithrediadau yn bennaf), symud allan o ganolfan C4C yn Llundain, a chau sianeli llinol llai.

- 3.9 Fel y nodwyd gennym yn ymgynghoriad mis Rhagfyr, mae ein dull o osod trwydded newydd ar gyfer gwasanaeth Channel 4 yn ceisio taro cydbwysedd rhwng rhoi mwy o hyblygrwydd i C4C er mwyn cefnogi ei strategaeth cynnwys a dosbarthu digidol yn gyntaf, a pharhau i ddiogelu ei fuddsoddiad mewn cynnwys unigryw o'r DU ar gyfer cynulleidfaoedd a diogelu'r gwaith o gyflawni elfennau craidd ei allbwn llinol.<sup>15</sup>

---

<sup>12</sup> AA/WARC ac IAB UK.

<sup>13</sup> Tudalen we: [Fast Forward strategy](#).

<sup>14</sup> Tudalen we: [Channel 4 set to announce plan to axe almost 250 jobs](#).

<sup>15</sup> Tudalen we: [Fast Forward strategy](#).

- 3.10 Yn ogystal â Fast Forward, mae gan C4C hefyd strategaeth [4 All the UK](#), sy'n ceisio rhoi hwb sylweddol i swyddi yn y gwledydd a'r rhanbarthau drwy ei ganolfannau rhanbarthol yn Glasgow, Leeds, Manceinion a Bryste a thrwy hynny gynrychioli'r DU yn well. Fel rhan o'r strategaeth hon, gosododd C4C darged gwirfoddol i sicrhau y byddai 50% o'i wariant ar gynnwys gwreiddiol a gaiff ei ddarlledu am y tro cyntaf ar Channel 4 yn cael ei gomisiynu gan gyflenwyr y tu allan i Lundain erbyn 2023. Er bod Ofcom yn monitro'r ffordd y mae C4C yn cyflawni strategaeth [4 All the UK](#) ac yn gwneud sylwadau ar hynny, ymrwymadau gwirfoddol gan C4C yw'r rhain ac nid oes gennym rôl orfodi mewn perthynas â nhw.

## Dadansoddiad ariannol wedi'i ddiweddarau

---

- 3.11 Cyflwynodd C4C ei geisiadau i Ofcom am y drwydded newydd ym mis Mai 2023 ('cyflwyniad mis Mai 2023' C4C), a oedd yn cynnwys amcangyfrif o flwyddyn lawn o gostau a refeniw ar gyfer 2022 a ffigurau o'i gynllun busnes tair blynedd ar gyfer 2023 a 2024. Ers hynny, mae C4C wedi cyflwyno adroddiad ar gostau gwirioneddol 2022 a 2023 (costau, refeniw a gwarged/diffyg) ac wedi diweddarau ei amcanestyniadau refeniw a chostau ar gyfer 2024.<sup>16</sup>
- 3.12 Mae'r canlyniadau wedi'u diweddarau ar gyfer 2022 a 2023 gyda'i gilydd yn dangos bod cyfanswm refeniw C4C 5% yn is na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol.
- 3.13 Mae C4C wedi gwrthbwysu rhywfaint o'r lleihad mewn refeniw yn 2022 a 2023 drwy leihau gwariant ar gynnwys. Fodd bynnag, mae terfyn ar lefel y lleihad sy'n bosibl wrth iddo fynd ar drywydd strategaeth gomisiynu digidol yn gyntaf sy'n canolbwyntio ar fuddsoddi yn y mathau o raglenni sy'n cael llawer o effaith ac sy'n aml yn ddud sy'n sbarduno twf mewn ffrydio, fel rhaglenni drama, rhaglenni ffeithiol premiwm, rhaglenni comedi a rhaglenni teledu realaeth.
- 3.14 O ganlyniad i hynny, disgwylir y bydd y gwarged disgwylidig ar gyfer cyfnod y drwydded bresennol tua 30% yn is na'r hyn a ragwelwyd yng nghyflwyniad mis Mai 2023 C4C.
- 3.15 Bwriedir i strategaeth *Fast Forward* C4C ymateb i'r newid sy'n digwydd i arferion gwyllo teledu. Mae'n adlewyrchu'r angen i gyflymu'r broses o arallgyfeirio ffrydiau refeniw oddi wrth hysbysebu llinol. Nod strategaeth flaenorol C4C, sef *Future4*, oedd cynhyrchu 30% o gyfanswm refeniw drwy hysbysebu digidol erbyn 2025.<sup>17</sup> Yn *Fast Forward*, mae'r targed hwn wedi cael ei newid i 30% yn 2024, sydd flwyddyn yn gynharach, a 50% erbyn 2030.<sup>18</sup>
- 3.16 Ar ben hynny, yn ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Ebrill, nododd y targedau arbed costau ar gyfer strategaeth *Fast Forward* (2024 i 2026), er mwyn helpu i ailddylunio'r busnes ar gyfer y trawsnewidiad digidol. Mae ein dadansoddiad yn dangos y bydd C4C yn gallu cefnogi ei anghenion comisiynu byrdymor os caiff yr arbedion cost hyn eu cyflawni.
- 3.17 Fodd bynnag, mae perfformiad diweddar C4C yn dangos nad yw'r ansicrwydd hirdymor ynglŷn â'r cydbwysedd rhwng refeniw llinol a digidol, a'i gynaliadwyedd ariannol, wedi lleihau. Rydym o'r farn bod angen i C4C gadw hyblygrwydd, yn enwedig mewn perthynas â phenderfyniadau comisiynu, er mwyn trawsnewid o fod yn ddarllidwr llinol yn bennaf i fod

---

<sup>16</sup> Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Ebrill, Atodiad 1.v.

<sup>17</sup> Tudalen we: [Future4 strategy](#).

<sup>18</sup> Tudalen we: [Fast Forward strategy](#).

yn ddarllledwr digidol yn gyntaf a pharhau i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd a sicrhau ei gynaliadwyedd hirdymor.

# 4. Cynnig newydd ar gyfer y cwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr

## Cefndir statudol

---

- 4.1 Mae Adran 264 o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer yr amcan y dylai'r gwasanaethau darlledu cyhoeddus gyda'i gilydd, cyn belled â'u bod yn cynnwys rhaglenni a wneir yn y DU, gynnwys yr hyn sy'n ymddangos i Ofcom fel amrywiaeth a chyfran briodol o raglenni a wneir y tu allan i ardal yr M25.<sup>19</sup> Mae hefyd yn darparu ar gyfer yr amcan y dylent gynnwys yr hyn sy'n ymddangos i Ofcom fel nifer ddigonol o raglenni sy'n adlewyrchu bywydau a phryderon gwahanol gymunedau a buddiannau a thraddodiadau diwylliannol yn y DU, ac yn lleol mewn gwahanol rannau o'r DU.<sup>20</sup> Rydym o'r farn bod cynhyrchu rhaglenni ledled y DU yn cyfrannu at gyflawni'r amcan hwn.
- 4.2 Mae Adran 288 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom osod yr amodau sy'n briodol yn ein barn ni ar gyfer sicrhau bod C4C yn gwneud cyfran addas o raglenni ar gyfer gwasanaeth Channel 4 y tu allan i'r M25, bod y rhain yn cynnwys amrywiaeth addas o raglenni a bod cyfran addas o'r gwariant yn mynd tuag at gynhyrchu'r rhaglenni hyn mewn amrywiaeth addas o ganolfannau cynhyrchu y tu allan i ardal yr M25.
- 4.3 Mae ein [canllawiau cynhyrchu rhanbarthol](#) (a ddiweddarwyd ddiwethaf yn 2019) yn nodi, er mwyn cyfrif tuag at y cwota cynhyrchu rhanbarthol fesul awr, ei bod yn rhaid i gynyrchiadau perthnasol fodloni dau o'r tri maen prawf canlynol:
- i) Canolfan sylweddol y tu allan i'r M25.
  - ii) O leiaf 70% o gyfanswm y gwariant cynhyrchu y tu allan i'r M25.
  - iii) Man cyflogaeth arferol o leiaf 50% o'r talentau cynhyrchu, yn ôl y gost, y tu allan i'r M25.
- 4.4 Mae'r cwotâu ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol yn berthnasol i raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn y DU yn unig, ac nid ydynt yn berthnasol i raglenni newyddion. Hefyd, nid yw'r cwotâu yn berthnasol i gynnwys a gaiff ei hunanhyrwyddo na rhaglenni a gaiff eu prynu.

## Rhwymedigaethau presennol

---

- 4.5 Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae trwydded bresennol Channel 4 yn cynnwys cwotâu MoL er mwyn sicrhau bod o leiaf 35% o'r oriau o raglenni ym mhob blwyddyn galendr a gaiff eu gwneud yn y DU i'w gwyllo ar Channel 4 yn cael eu cynhyrchu y tu allan i'r M25, a bod o leiaf 35% o'r gwariant ar raglenni a gaiff eu gwneud yn y DU i'w gwyllo ar y gwasanaeth yn cael ei ddyrannu i gynhyrchu rhaglenni a wneir y tu allan i'r M25 a chan ddefnyddio amrywiaeth o ganolfannau cynhyrchu.

---

<sup>19</sup> Adran 264 (6)(j)

<sup>20</sup> Adran 264 (6)(i)

- 4.6 Gwnaethom ymgynghori ar y cwotâu MoL ym mis Rhagfyr 2023 ac nid ydym yn ailystyried ein cynnig i gadw lefel y cwotâu MoL ar 35% o'r oriau a'r gwariant yn yr ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried y rhyngweithio rhwng cwotâu MoE ac MoL ac unrhyw sylwadau newydd sy'n codi pwyntiau ynglŷn â'n cynnig yn ymgynghoriad mis Rhagfyr ar gyfer y cwotâu MoL yng ngoleuni'r cynnig ar gyfer y cwotâu MoE yn yr ymgynghoriad hwn.
- 4.7 Mae trwydded bresennol Channel 4 hefyd yn darparu ar gyfer y canlynol:
- O 1 Ionawr 2020 ymlaen, bydd y Gorfforaeth yn sicrhau bod o leiaf 9 y cant o oriau'r Rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn y DU i'w gwyllo ar Wasanaeth Channel 4 yn cael eu cynhyrchu y tu allan i Loegr mewn unrhyw flwyddyn galendr.*
- O 1 Ionawr 2020 ymlaen, bydd y Gorfforaeth yn sicrhau bod o leiaf 9 y cant o'i gwariant ar Raglenni a wneir yn y DU i'w gwyllo ar Wasanaeth Channel 4 yn cael ei ddyrannu i gynhyrchu Rhaglenni y tu allan i Loegr a'u bod yn gyfeiriol at gynhyrchu Rhaglenni mewn canolfannau cynhyrchu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.*
- 4.8 Cafodd y cwotâu MoE eu cyflwyno am y tro cyntaf yn 2009 ar ôl [Ail Adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus](#). Pan gawsant eu cyflwyno, gosodwyd y cwotâu gwariant ac oriau ar 3%. Yn nhrwydded 2014, gosodwyd y cwotâu ar 3% i ddechrau, gan gynyddu i 9% yn 2020.
- 4.9 Mae'r tabl isod yn dangos yr hyn y mae C4C wedi'i gyflawni'n ddiweddar yn erbyn y cwotâu MoE (Gwnaed y tu allan i Loegr) ac MoL (Gwnaed y tu allan i Lundain):

Cwota	2014	2015	2016	2017	2018	2019	Cwota	2020	2021	2022
<b>Gwnaed y tu allan i Loegr (MoE)</b>										
3% o'r oriau	6.1%	9.1%	9.2%	12.1%	10.1%	11.2%	9% o'r oriau	11.7%	9.8%	9.1%
3% o'r gwariant	6.0%	7.4%	8.4%	9.5%	7.8%	7.9%	9% o'r gwariant	9.4%	9.4%	9.7%
<b>Gwnaed y tu allan i Lundain (MoL)</b>										
35% o'r oriau	51.3 %	53.2%	54.5%	56.9%	59.3%	54.1%	-	57.0%	66.3%	65.8%
35% o'r gwariant	42.3 %	38.5%	40.1%	44.7%	45.2%	45.4%	-	46.6%	54.8%	52.5%

- 4.10 Yn ymgynghoriad mis Rhagfyr, gwnaethom gynnig cadw cwotâu MoE C4C ar 9% o'r oriau a'r gwariant.

## Ein dull o gynnal yr asesiad hwn

- 4.11 Wrth ystyried y lefelau priodol ar gyfer cwotâu MoE Channel 4, rhaid i ni roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo'r gwaith o gyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU.<sup>21</sup> Felly, rhaid i ni ystyried cyd-destun y farchnad, a ddisgrifir yn adran 3, a'r angen i

<sup>21</sup> Adran 3(4)(a) o'r Ddeddf.

gynnal a chryfhau system darlledu gwasanaeth cyhoeddus y DU, y mae C4C yn chwarae rhan hollbwysig ynddi. Rhaid i'n hymyriad fod yn gymesur ac adlewyrchu'n briodol nifer o ystyriaethau gwahanol a allai fod yn groes i'w gilydd.

- 4.12 Rydym yn cydnabod cryfder teimladau rhanddeiliaid ynglŷn â'r materion sy'n deillio o'r cwotâu MoE ac rydym wedi ystyried yn ofalus y dadleuon a'r dystiolaeth a ddarparwyd mewn ymatebion i'n hymgyngoriad ym mis Rhagfyr. Mae C4C hefyd wedi darparu gwybodaeth ychwanegol ac wedi diwygio ei safbwynt. Trafodwn yr ystod lawn o safbwyntiau a thystiolaeth a roddwyd i ni yn ein dadansoddiad o'r gwahanol opsiynau isod.
- 4.13 Ar hyn o bryd, mae C4C yn wynebu her ddwbl, sef cyflawni ei strategaeth trawsnewid digidol newydd gan reoli effaith arafiad y farchnad hysbysebu ar ei refeniw ac felly ar faint o arian y gall ei fuddsoddi yn ei gyllideb cynnwys ar yr un pryd. Fel y nodir ym mharagraff 3.8, bydd strategaeth *Fast Forward* C4C yn cynnwys blaenoriaethu cynnwys sy'n gweithio mewn amgylchedd ar-alw.
- 4.14 Bydd angen i unrhyw addasiad i'r cwotâu MoE ystyried y newid hwn yn ffocws gwariant comisiynu C4C yn y dyfodol tuag at genres sy'n annog pobl i wyllo Channel 4 Streaming gan barhau i apelio at gynulleidfaoedd llinol. Mae C4C wedi dweud y bydd hyn yn golygu llai o oriau o raglenni ar y cyfan ond mwy o effaith ar gynulleidfaoedd.<sup>22</sup>
- 4.15 Ein nod yw gosod y cwotâu MoE ar lefel briodol i gefnogi cynyrchiadau y tu allan i Loegr, i gyfrannu at amrywiaeth eang o raglenni sy'n adlewyrchu bywydau a diddordebau cymunedau ledled y DU, a rhoi hyblygrwydd priodol i C4C er mwyn iddo lwyddo a chyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU. Er mwyn pennu'r lefel briodol, rhaid ystyried a dadansoddi amrywiaeth o fewnbynnau, gan gynnwys cyflwyniadau allanol, data ariannol a data ansoddi eraill, ac amrywiaeth o waith ymchwil. Mae hefyd angen rhywfaint o ragweld ymlaen llaw a phrofi senarios yn seiliedig ar y mewnbynnau hyn, a hynny mewn marchnad cyfryngau ansicr iawn, ac felly rhaid dibynnu ar gryn dipyn o farn reoleiddiol.
- 4.16 Gan ystyried y safbwyntiau a'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan randdeiliaid mewn ymateb i'n hymgyngoriad ym mis Rhagfyr a'r wybodaeth newydd a roddwyd gan C4C, rydym wedi asesu'r opsiynau canlynol ar gyfer y cwotâu MoE:
- Cadw'r cwotâu ar 9% o'r oriau a'r gwariant (ein cynnig yn ymgynghoriad mis Rhagfyr);
  - Cynyddu'r cwotâu i 16%;
  - Cynyddu'r cwotâu i 12%;
  - Ychwanegu cwotâu manylach sy'n benodol i'r gwledydd unigol.
- 4.17 Fel y nodir yn adran 3, ceir cryn dipyn o ansicrwydd ynglŷn â sefyllfa ariannol C4C a'r farchnad hysbysebu ar y teledu yn ehangach yn ystod cyfnod y drwydded nesaf.<sup>23</sup> Lle y defnyddiwn ragolygon, mae'r rhain yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael i ni, ond rydym yn cydnabod eu bod yn debygol o ddatblygu dros gyfnod y drwydded.

---

<sup>22</sup>Tudalen we: [Fast Forward strategy](#).

<sup>23</sup> Yn ymgynghoriad mis Rhagfyr, gwnaethom gynnig y dylai'r drwydded gael ei hadnewyddu am gyfnod o 10 mlynedd.

## Dadansoddiad o opsiynau unigol

---

### Cadw'r cwotâu ar 9%

#### Cadw'r cwotâu ar 9% fyddai'n rhoi'r hyblygrwydd mwyaf i C4C

- 4.18 O'r opsiynau rydym wedi'u hystyried, cadw'r cwotâu MoE ar 9% o'r oriau a'r gwariant, yn unol â'n cynnig gwreiddiol, fyddai'n rhoi'r hyblygrwydd mwyaf i C4C yn ei strategaeth gomisiynu. Yn ymgynghoriad mis Rhagfyr, gwnaethom ystyried cyflwyniad mis Mai 2023 C4C i ni ynglŷn â'r drwydded newydd lle roedd C4C yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw gynnydd i'r cwotâu MoE mor fuan ar ôl y cynnydd blaenorol heb roi amser iddynt ymwreiddio. Yn enwedig o ystyried ei faint, roedd C4C yn pryderu y gallai unrhyw gynnydd ei roi mewn perygl o fethu â bodloni cwota yn sgil tarfu ar un neu ddwy raglen allweddol, neu eu colli. Yn ogystal ag ansicrwydd o ran yr economi a chomisiynu, soniodd C4C hefyd am heriau posibl o ran twf y sectorau cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau fel ffactor risg yn ei ddarpariaeth.<sup>24</sup>
- 4.19 Roeddem yn cytuno'n fras â'r safbwynt hwn a gwnaethom nodi ei bod yn arbennig o bwysig bod gan C4C hyblygrwydd priodol wrth wneud penderfyniadau comisiynu er mwyn cefnogi ei drawsnewidiad digidol a sicrhau ei fod yn gallu parhau i gyflawni ei gylch gwaith a'i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau.<sup>25</sup> Roedd hyn yn gyson â'r ffordd y gwnaethom ymdrin â'r amodau eraill, megis newidiadau y gwnaethom eu cynnig i'r cwota cynrychiadau gwreiddiol a'r cwota materion cyfoes. Mae hyn hefyd yn gyson â'r sefyllfa bresennol a nodir yn y Ddeddf Cyfryngau, sy'n diwygio cylchoedd gwaith a gofynion darlledu gwasanaeth cyhoeddus er mwyn canolbwyntio ar y meysydd pwysicaf o ran darparu gwasanaeth cyhoeddus, gyda'r nod o roi mwy o hyblygrwydd i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyflawni eu rhwymedigaethau mewn ffordd sy'n diwallu anghenion cynulleidfaoedd.
- 4.20 Yn ymgynghoriad mis Rhagfyr, gwnaethom gyflwyno dadansoddiad o gost cynhyrchu yn y gwledydd er mwyn modelu effaith cwotâu MoE uwch ar gynaliadwyedd C4C. Daethom i'r casgliad y gallai cynyddu'r cwotâu MoE arwain at gynnydd yng nghostau cynhyrchu C4C, a allai, yn ei dro, leihau ei warged a'i refeniw ac felly effeithio ar ei allu i ymateb i heriau masnachol yn y dyfodol. Gwnaeth nifer o randdeiliaid (gan gynnwys Pact,<sup>26</sup> Northern Ireland Screen<sup>27</sup> a Screen Scotland)<sup>28</sup> gwestiynu'r dadansoddiad hwn. Cyflwynodd Pact ddata a gomisiynwyd gan O&O, yr oedd yn dweud eu bod yn dangos bod cynhyrchu yn y gwledydd wedi mynd yn ddrutach yn ystod y blynyddoedd diwethaf i bob golwg, yn sgil cynnydd mewn cynhyrchu genres mwy costus yn yr ardaloedd hyn (yn hytrach na bod cynhyrchu rhaglenni yno yn ddrutach yn ei hanfod).<sup>29</sup>
- 4.21 Yn ein dadansoddiad ar gyfer ymgynghoriad mis Rhagfyr, ni wnaethom rannu'r rhaglenni MoE yn ôl genre, felly nid oedd modd i ni fesur effaith genres unigol. Ers hynny, rydym wedi

---

<sup>24</sup> Cyflwyniad mis Mai 2023 C4C, t. 32.

<sup>25</sup> Ofcom, [Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad](#), 6 Rhagfyr 2023, t. 67-69.

<sup>26</sup> [Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t. 16-19.

<sup>27</sup> [Ymateb NI Screen i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t. 3-6.

<sup>28</sup> [Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t.9-10.

<sup>29</sup> [Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#) t. 16-19.



cynnal dadansoddiad pellach gan rannu rhaglenni MoE ac MoL yn ôl genre,<sup>30</sup> ac wedi canfod y canlynol:

- Roedd yr oriau o raglenni comedi a drama a oedd yn cyfrif fel oriau y tu allan i Loegr yn uwch yn 2022 nag yn 2017. Mae'r rhain yn genres drutach na genres fel rhaglenni adloniant neu ffeithiol cyffredinol, er enghraifft (ble bynnag y cânt eu cynhyrchu).
- Newidiodd hyn y gymysgedd o genres ar gyfer gwariant MoE, a wyrodd y gost gyfartalog yr awr ar gyfer rhaglenni y tu allan i Loegr tuag i fyny wrth gymharu 2022 a 2017.
- Ar wahân i hyn, nid oedd gwahaniaethau sylweddol o ran costau genres ar gyfer MoE o gymharu â rhanbarthau MoL eraill, ac eithrio rhaglenni ffeithiol cyffredinol lle roedd rhaglenni MoE yn ddrytach na rhaglenni MoL eraill.

4.22 Rydym yn cydnabod barn rhanddeiliaid ei bod yn anodd darganfod p'un a yw cost cynhyrchu fesul awr yn y gwledydd o gymharu â gweddill y DU (ac eithrio Llundain) yn ddrytach ai peidio a bod ffyrdd amrywiol o ddehongli'r data sydd ar gael.

### Ar eu pen eu hunain, gall cwotâu 9% fod yn llai effeithiol o ran cyflawni amcanion polisi cyhoeddus na chwotâu uwch

4.23 Yn ymgyngoriad mis Rhagfyr, gwnaethom nodi pwysigrwydd y cwotâu MoE ar gyfer cefnogi cynrychiadau yn y gwledydd a'u rôl o ran gwella cynrychiolaeth ar y sgrin i gynulleidfaoedd yn y gwledydd. Gwnaethom hefyd nodi nad cwotâu oedd yr unig ffordd o ddatblygu'r ddau amcan hyn a bod buddsoddiad C4C yn y gwledydd yn mynd y tu hwnt i raglenni ar gyfer y sianel drwyddedig.

4.24 Fel y nodir ym mharagraffau 4.29-4.31, rydym yn derbyn y ddatl ei bod yn debygol, yn niffyg ystyriaethau eraill, y bydd cysylltiad cadarnhaol rhwng cwotâu uwch a mwy o effaith o ran cynnydd mewn oriau cynhyrchu a gwariant yn y gwledydd. Mae'n bosibl na fydd cadw'r cwotâu MoE ar 9% yn arwain at gynnydd pellach yn yr effaith gadarnhaol bresennol ar yr economi greadigol a chynulleidfaoedd yn y gwledydd.

## Cynyddu'r cwotâu

4.25 Ers i ymgyngoriad mis Rhagfyr ddod i ben, mae C4C wedi awgrymu, yn hytrach nag aros ar 9% o'r oriau a'r gwariant drwy gydol cyfnod nesaf y drwydded, y dylai'r cwotâu MoE gynyddu i 12% o 2030 ymlaen.

4.26 Yn ei gyflwyniad ym mis Mai 2024, dywedodd C4C ei fod wedi asesu'r ffactorau canlynol yn eu cyfanrwydd er mwyn ffurfio ei farn:

- a) Yr heriau sy'n gysylltiedig â chynyddu cyfran y comisiynau yn y gwledydd a'r rhanbarthau;
- b) Effaith mentrau i feithrin sgiliau a gallu yn y sector cynhyrchu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon;
- c) Perfformiad hanesyddol a disgwyliedig yn erbyn cwotâu ar gyfer y gwledydd;
- d) Ansicrwydd ei amgylchedd gweithredu, yn arbennig:
  - i) Ansicrwydd yn y farchnad;

---

<sup>30</sup> Nid oes gennym wybodaeth am wariant cymwys yn ôl genre ar gyfer rhaglenni a wnaed yn Llundain, felly nid oedd modd i ni gynnwys Llundain yn ein dadansoddiad.

- ii) Strategaeth gomisiynu sy'n datblygu ac sy'n symud tuag at ffrydio;
  - iii) Effaith y Bil Cyfryngau (y Ddeddf Cyfryngau erbyn hyn);
- e) Goblygiadau cwotâu uwch ar gyfer y gwledydd i'r ffordd y mae'n cyflawni ei ymrwymiad gwirfoddol i sicrhau bod 50% o wariant comisiynu'r brif sianel ar raglenni a wneir y tu allan i Lundain.<sup>31</sup>
- 4.27 Yn ein hasesiad o effaith cynyddu'r cwotâu, rydym wedi ystyried cyflwyniadau C4C a'i ymatebion i geisiadau am wybodaeth, safbwyntiau rhanddeiliaid eraill mewn ymateb i ymgynghoriad mis Rhagfyr a'r dadansoddiad ychwanegol rydym wedi'i gynnal.
- 4.28 Yn ogystal ag asesu awgrym C4C y dylid cynyddu'r cwotâu i 12%, rydym hefyd wedi asesu'r cynnydd mwy i 16% a awgrymwyd gan lawer o randdeiliaid mewn ymateb i ymgynghoriad mis Rhagfyr.

### Mae'n debygol y byddai cynyddu'r cwotâu yn arwain at fanteision ychwanegol i gynhyrchwyr yn y gwledydd

- 4.29 Roedd llawer o randdeiliaid (gan gynnwys Pact,<sup>32</sup> Screen Scotland, Cymru Greadigol a Northern Ireland Screen,<sup>33</sup> cynrychiolwyr o sectorau cynhyrchu annibynnol yr Alban a Gogledd Iwerddon,<sup>34</sup> cynrychiolwyr o lywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon,<sup>35</sup> Directors UK,<sup>36</sup> Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban<sup>37</sup> a Chyngres Undebau Llafur yr Alban)<sup>38</sup> yn dadlau mewn ymateb i ymgynghoriad mis Rhagfyr y dylid cynyddu cwotâu MoE Channel 4 i 16% neu'n uwch.
- 4.30 Roedd y rhanddeiliaid hyn o'r farn y byddai hyn yn arwain at fanteision i'r sector cynhyrchu ledled y DU. Er enghraifft, roedd Screen Scotland yn dadlau y byddai cwotâu MoE o 16% yn sicrhau y bydd y capasiti datblygu a chynhyrchu rhaglenni sydd eisoes yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael ei gynnal a'i ddatblygu'n strategol, ac yn sicrhau bod yr ail wasanaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU sydd ym mherchnogaeth y cyhoedd yn cyflawni ar gyfer y DU gyfan o ran cynrychiolaeth, ymgysylltu â democratiaeth, amrywiaeth a chynhwysiad.<sup>39</sup>
- 4.31 Rydym yn cytuno â'r rhanddeiliaid y byddai cynyddu cwotâu MoE Channel 4 y tu hwnt i 9% ac felly cynyddu'r gyfran warantedig orfodadwy o wariant ac oriau cynhyrchu yn y gwledydd yn debygol o fod o fudd i gynhyrchu rhanbarthol. Yn niffyg ystyriaethau eraill, mae'n ymddangos y byddai cynnydd i 16% yn debygol o arwain at fwy o fanteision i'r sector cynhyrchu y tu allan i Loegr na chynnydd o 12%.

---

<sup>31</sup> Cyflwyniad mis Mai 2024 C4C, t. 2.

<sup>32</sup> [Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t. 15.

<sup>33</sup> Tudalen we: [Ymateb ar y cyd gan Northern Ireland Screen, Screen Scotland a Cymru Greadigol](#).

<sup>34</sup> Llythyr gan gwmnïau annibynnol yn yr Alban a ddaeth i law ar 5/3/2024; [Ymateb sector cynhyrchu teledu annibynnol Gogledd Iwerddon i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t. 1

<sup>35</sup> Llythyr gan gynrychiolwyr llywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a ddaeth i law ar 26/4/2024.

<sup>36</sup> Tudalen we: [Llythyr gan Directors UK i Ofcom ynghylch y Gwledydd a'r Rhanbarthau](#)

<sup>37</sup> [Ymateb Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t. 6.

<sup>38</sup> Tudalen we: [Llythyr agored undebau creadigol i Ofcom a C4](#).

<sup>39</sup> [Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t. 8.

## Byddai cynyddu'r cwotâu yn ei gwneud yn ofynnol i C4C symud comisiynau a gallai hynny effeithio ar ei gynaliadwyedd ariannol

- 4.32 Er mwyn bodloni cwotâu uwch ar gyfer gwariant ac oriau MoE<sup>40</sup>, byddai'n rhaid i C4C:
- Symud gwariant ac oriau cynnwys a gynhyrchir yn Llundain i'r gwledydd;
  - Symud gwariant ac oriau cynnwys a gynhyrchir yn rhanbarthau Lloegr<sup>41</sup> i'r gwledydd; a/neu
  - Gynyddu lefel gyffredinol ei oriau a'i wariant cynhyrchu.
- 4.33 Mater i C4C yw penderfynu sut y dylai roi unrhyw gynnydd i'w gwotâu ar waith, ar yr amod bod y gwahanol ganolfannau cynhyrchu a ddefnyddir yn cyfateb i amrywiaeth addas.<sup>42</sup>
- 4.34 Yn ei gyflwyniad ym mis Mai 2024, nododd C4C ei farn y gallai fodloni cwotâu o 12% pe bai'n cael amser i addasu i lefel newydd y cwotâu a fyddai, ynghyd â'i ymrwymadau a'i rwymedigaethau rheoleiddiol eraill, yn gyfyngiad ychwanegol ar y rhyddid creadigol sy'n hanfodol i'w lwyddiant masnachol, ac y byddai angen iddo ei rheoli ochr yn ochr â'r broses o drawsnewid yn ddarlledwr digidol yn gyntaf.<sup>43</sup> Dywedodd C4C wrthym hefyd y byddai cynyddu'r cwotâu MoE i 16% yn rhoi cyfyngiadau ar ei waith comisiynu ac yn ei orfodi i gomisiynu rhaglenni gyda'r bwriad o fodloni cwota yn hytrach nag am eu bod yn cynrychioli'r syniadau gorau posibl.<sup>44</sup> Esboniodd mai'r rheswm dros hyn yw po uchaf yw lefel y rhwymedigaethau rheoleiddiol yn ei drwydded, y lleiaf o hyblygrwydd creadigol a fydd gan ei gomisiynwyr, a all arwain at raglenni llai llwyddiannus o ran cynulleidfaoedd ac felly elw masnachol, gan ei gwneud yn anos sicrhau ei gynaliadwyedd masnachol yn y tymor hwy mewn marchnad heriol a chystadleuol.<sup>45</sup>
- 4.35 Amcangyfrifodd C4C y gallai'r gwariant sy'n ofynnol i symud o Loegr (gan gynnwys Llundain) i gefnogi cynnydd yn y cwotâu MoE o 9% i 12% fod hyd at tua £[<]m y flwyddyn ac y gallai fod hyd at tua£[<]m y flwyddyn i gefnogi cynnydd o 16%.<sup>46</sup>
- 4.36 Rydym wedi dilysu amcangyfrif C4C drwy fodelu'r oriau a'r gwariant MoE ychwanegol a fyddai wedi bod yn ofynnol yn 2022 pe bai'r cwotâu wedi'u gosod ar 12% a 16% yn y drefn honno. Wrth amcangyfrif hyn, fe wnaethom ddefnyddio'r gymysgedd o genres a'r costau yn unol â pherfformiad cwota gwirioneddol Channel 4 yn 2022, yn hytrach na cheisio ailfodelu costau ar sail cymysgedd bosibl o genres yn y dyfodol. Mater i C4C yw penderfynu pa fathau o raglenni y bydd yn buddsoddi ynddynt er mwyn sbarduno twf ffrydio a chynhyrchu refeniw digonol hyd at ddiwedd cyfnod y drwydded.
- 4.37 Roedd ein dadansoddiad yn dangos y byddai wedi bod angen i C4C symud tua [<] awr a thua [<]m o wariant o Loegr i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn cyflawni 12% o oriau a gwariant MoE yn 2022. Er mwyn cyflawni 16% o oriau a gwariant MoE, byddai wedi

---

<sup>40</sup> Dim ond i 'wariant cymwys' y mae'r cwotâu hyn yn berthnasol. Is-set o [<]% o wariant C4C ar raglenni ar ei brif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yw'r gwariant cymwys, ac nid yw'n cynnwys gwariant ar newyddion, rhaglenni a gaiff eu prynu, nac ailddarllediadau ac ati. Mae gwariant cynhyrchu cymwys Channel 4 ei hun yn is-set o tua [<]% o'r cyfanswm gwariant blynyddol a gofnodir gan C4C ar gynnwys ar draws ei bortffolio o wasanaethau (ar sail data perfformiad cwotâu 2022).

<sup>41</sup> Nid yw cyfeiriadau at ranbarthau Lloegr yn cynnwys Llundain.

<sup>42</sup> O dan adran 288(1) o'r Ddeddf.

<sup>43</sup> Cyflwyniad mis Mai 2024 C4C, t. 1.

<sup>44</sup> Cyflwyniad mis Mai 2024 C4C, t. 4.

<sup>45</sup> Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Gorffennaf, t. 7.

<sup>46</sup> Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Gorffennaf, t. 7.

bod angen i C4C symud tua [£] o oriau a thua £[£]m o wariant o Loegr i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r rhain yn cyd-fynd ag amcangyfrifon C4C.<sup>47</sup>

- 4.38 Dywedodd C4C y byddai, wrth roi unrhyw gynnydd i'w gwotâu gwariant ac oriau ar waith, yn ceisio lleihau unrhyw effaith ar gomisiynu rhanbarthol yn Lloegr drwy ailddyrranu comisiynau o Lundain yn hytrach na rhanbarthau Lloegr.<sup>48</sup>
- 4.39 Fodd bynnag, dywedodd C4C hefyd nad yw'n realistig y gallai gynyddu ei lefel gyffredinol o gomisiynu y tu allan i Lundain drwy symud y cyfan o'r £[£]m o wariant sy'n ofynnol i gefnogi cwotâu o 16% o Lundain.<sup>49</sup> Esboniodd C4C fod yr ymrwymadau presennol i gyfresi allweddol sy'n dychwelyd yn golygu bod cyfyngiadau ar faint o wariant y byddai'n bosibl iddo ei ailddyrranu o Lundain, a pha mor gyflym y gallai wneud hynny. Rhoddodd enghraifft rhaglenni fel *Gogglebox*, *Hunted* a *Taskmaster* a oedd, ym marn C4C, yn hanfodol ar hyn o bryd er mwyn ysgogi cynulleidfaoedd mawr a chynnal y refeniw masnachol y bydd ei angen arno i gyflawni ei gylch gwaith ar gyfer cynulleidfaoedd. Er ei fod yn cydnabod y bydd ei amserlenni'n newid dros amser, dywedodd fod pwysigrwydd rhai rhaglenni mawr i'w lefelau gwyllo a refeniw yn cyfyngu ar ba mor gyflym y gallai ailgyfeirio gwariant ar gynyrchiadau yn Llundain.<sup>50</sup>
- 4.40 Felly, pe na bai C4C yn gallu symud digon o gynnwys o Lundain, byddai'n rhaid iddo naill ai symud comisiynau o ranbarthau Lloegr neu gynyddu ei wariant cyffredinol ar gynnwys. Dywedodd C4C y gallai ailddyrranu cyfran mor fawr o wariant ar gynnwys arwain at niweidio cymunedau cynhyrchu yn Lloegr.<sup>51</sup>
- 4.41 Mae C4C wedi rhoi rhesymau credadwy i esbonio pam mae cyfyngiad ar faint y gall symud cynnwys o Loegr (Llundain a rhanbarthau Lloegr) gyfrannu at gyflawni cwota MoE uwch. Felly, rydym o'r farn ei bod yn debygol y byddai angen i C4C gynyddu ei wariant ar gynnwys er mwyn bodloni unrhyw gynnydd y tu hwnt i 12%.
- 4.42 Yn ogystal â'r dadansoddiad ym mharagraff 4.36, rydym wedi gwneud rhywfaint o waith modelu blaengar o'r effaith bosibl fwyaf ar C4C pe bai'n cynyddu ei gwotâu MoE y tu hwnt i 12%, i 16%. Wrth fodelu hyn, rydym wedi tybio y byddai C4C yn rheoli cynnydd o 9% i 12% yn bennaf drwy symud comisiynau o Lundain, ac y byddai wedyn yn gweithredu cynnydd o 12% i 16% drwy gynyddu ei wariant cyffredinol ar gynnwys. Wrth fodelu costau cynnwys ychwanegol, rydym wedi defnyddio costau MoE gwirioneddol Channel 4 fesul genre yn 2022, ac wedi seilio'r cynnydd mewn darpariaeth yn y dyfodol ar y genres rydym yn deall y bydd C4C yn bwriadu comisiynu mwy ohonynt yn y dyfodol. Rydym hefyd wedi tybio y bydd gwariant cymwys Channel 4 fel cyfran o gyfanswm gwariant blyneddol C4C ar gynnwys yn aros ar yr un lefel ar gyfer cyfnod y drwydded newydd (gweler troedyn 40).
- 4.43 Dangosodd ein gwaith modelu mai effaith bosibl fwyaf cynyddu'r cwotâu MoE o 12% i 16% yw y byddai angen i C4C gynhyrchu tua [£] awr yn rhagor o raglenni am gost ychwanegol o tua £[£]m. Mae hyn yn cyfateb i tua [£]% o gyfanswm costau cynnwys C4C yn 2022 a thua [£]% o wariant cymwys Channel 4.

---

<sup>47</sup> Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Gorffennaf, t. 7.

<sup>48</sup> Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Gorffennaf, t. 6.

<sup>49</sup> Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Gorffennaf, t. 6.

<sup>50</sup> Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Gorffennaf, t. 6.

<sup>51</sup> Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Gorffennaf, t. 6.

- 4.44 Er mwyn asesu effaith ariannol bosibl y gost ychwanegol hon ar warged amcanestynedig C4C ar gyfer cyfnod nesaf y drwydded, gwnaethom gymhwysu'r cynnydd untro a gyfrifwyd, sef tua [3<]%, at gyfanswm costau cynnwys disgwylidig C4C o 2030 ymlaen er mwyn adlewyrchu'r cynllun gweithredu a awgrymwyd gan C4C ar gyfer cwotâu uwch. Wedyn, gwnaethom gymhwysu'r tybiaethau ynghylch cynnwys a chwyddiant economaidd yng nghynllun busnes C4C at y costau cynnwys uwch o 2030 ymlaen a defnyddio'r holl wybodaeth a thybiaethau eraill o gynllun busnes diweddaraf C4C, gan gynnwys ei amcanestyniadau ar gyfer refeniw o hysbysebu ar y teledu.<sup>52</sup> Yn y senario hon, rydym yn amcangyfrif cynnydd mewn costau a allai arwain at ddiffyg, ar ddiwedd cyfnod nesaf y drwydded, o hyd at tua £[3<]m yn hytrach na gwarged amcangyfrifedig C4C o tua [3<]m.
- 4.45 Un cam lliniaru posibl i leihau lefel y cynnydd mewn costau fyddai i C4C gomisiynu mwy o raglenni tariff isel sy'n cael llai o effaith yn y gwledydd. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y byddai hyn yn cyd-fynd â strategaeth ddigidol C4C nac yn debygol o apelio at amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd, ac mae'r naill a'r llall yn allweddol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y darlledwr yn y dyfodol. Dywedodd C4C wrthym fod comisiynu llai o gynyrchiadau'n golygu bod mwy o bwysau ar bob rhaglen unigol, nid yn unig i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd, ond hefyd i gyflawni cynifer o'i wahanol flaenoriaethau â phosibl – ei gylch gwaith, ei amcanion strategol, a'i ofynion o ran cwotâu.<sup>53</sup> Rydym yn derbyn bod y newid yn strategaeth gomisiynu C4C tuag at lai o gynyrchiadau, ond cynyrchiadau tariff uwch, yn golygu ei bod yn bwysig i bob comisiwn weithio ar nifer o lefelau. Rydym hefyd wedi ystyried heriau ariannol presennol C4C, sy'n rhoi llai o hyblygrwydd masnachol iddo gomisiynu rhaglenni a all fod yn llai tebygol o gyflawni yn erbyn ystod lawn ei flaenoriaethau.
- 4.46 Pe baem yn cynyddu'r cwotâu y tu hwnt i 12%, i 16%, credwn y byddai C4C yn fwy tebygol o ddefnyddio cyfuniad o'r tri opsiwn (gweler paragraff 4.32) yn hytrach na dim ond cynyddu ei wariant ar gynnwys, ac felly mae'r cynnydd posibl mwyaf mewn costau rydym wedi'i fodelu yn debygol o orliwio'r effaith bosibl fwyaf ar sefyllfa ariannol C4C. Fodd bynnag, o ystyried sefyllfa ariannol bresennol C4C a'r ansicrwydd masnachol a fydd yn ei wynebu yn ystod cyfnod nesaf y drwydded, rydym o'r farn y byddai cynyddu'r cwotâu MoE i 16% yn peri mwy o risg i gynaliadwyedd C4C yn y dyfodol a'i allu i gyflawni ei rwymedigaethau trwydded na chynnydd o 12%.
- 4.47 Ar sail ein dadansoddiad, ein barn ni yw, er ei fod yn dal i gynrychioli risg fach i gynaliadwyedd ariannol C4C a'i allu i gyflawni ei rwymedigaethau trwydded, fod cynyddu'r cwotâu MoE o 9% i 12% yn ystod cyfnod nesaf y drwydded yn debygol o ganiatáu i C4C gadw digon o hyblygrwydd masnachol a chael ei gefnogi gan ei refeniw amcanestynedig. Fodd bynnag, o ystyried yr ansicrwydd ehangach yn y farchnad a heriau ariannol presennol C4C, rydym o'r farn y byddai cynyddu'r cwotâu MoE ymhellach, i 16%, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar hyblygrwydd masnachol C4C, yn peri mwy o risg i gynaliadwyedd C4C yn y dyfodol a'i allu i gyflawni ei gylch gwaith a'i rwymedigaethau trwydded. Byddai hyn er anfantais i gynulleidfaoedd yn y DU.

---

<sup>52</sup> Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Ebrill, Atodiad 1.u. ac Atodiad 1.v.

<sup>53</sup> Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Gorffennaf, t. 10.

## Gall cynyddu'r cwotâu gynyddu'r heriau sy'n wynebu C4C wrth gomisiynu yn y gwledydd

### Gwnaeth rhanddeiliaid herio barn C4C bod problemau capasiti yn y gwledydd

- 4.48 Roedd nifer o randdeiliaid yn anghytuno â'r ddadl a gyflwynwyd gan C4C cyn ymgynghoriad mis Rhagfyr nad yw'r capasiti cynhyrchu yn y gwledydd yn ddigonol i fodloni gofynion lefelau cwota uwch. Ymhlith y rhanddeiliaid hyn roedd cynrychiolwyr o sector cynhyrchu annibynnol yr Alban, Pact<sup>54</sup>, Northern Ireland Screen,<sup>55</sup> Screen Scotland,<sup>56</sup> cynrychiolwyr o lywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon<sup>57</sup> a Chyngres Undebau Llafur yr Alban.<sup>58</sup>
- 4.49 Yn ei ymateb, cyflwynodd Pact ddata a gomisiynwyd gan O&O a oedd yn dangos bod nifer y cwmnïau cynhyrchu yn y gwledydd wedi cynyddu dros amser yn gyffredinol, ac awgrymodd Pact fod hyn yn dangos bod cyflenwad cyson o gwmnïau i C4C gomisiynu ganddynt.<sup>59</sup> Roedd y data hefyd yn dangos bod mwy o gwmnïau wedi cael comisiynau yn y gwledydd dros amser, a bod nifer cyfartalog yr oriau fesul cwmni wedi lleihau. Roedd Pact yn dadlau bod hyn yn dangos bod digon o gapasiti i gynhyrchu mwy.<sup>60</sup> Yn ei ymateb, awgrymodd Screen Scotland fod elfen o "b'un a ddaeth gyntaf?" i ddadl C4C a, phe bai ei gwotâu'n cael eu cynyddu, y byddai cynhyrchwyr y tu allan i Loegr yn ymateb i'r galw hwnnw.<sup>61</sup>
- 4.50 Ar ben hynny, gwnaeth sawl rhanddeiliad (Pact,<sup>62</sup> Northern Ireland Screen, Screen Scotland a Cymru Greadigol,<sup>63</sup> a chynrychiolwyr o lywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon)<sup>64</sup> hefyd dynnu sylw at y ffaith ei bod yn ymddangos nad yw'r BBC wedi'i chael hi'n anodd cyflawni ei gwotâu ar gyfer y gwledydd ac felly y dylai C4C allu cynyddu ei ddarpariaeth.

### Cyflwynodd C4C dystiolaeth o'r heriau y mae'n credu ei fod yn eu hwynebu

- 4.51 Gwnaethom ofyn i C4C am wybodaeth ychwanegol i ategu ei farn ei fod yn wynebu heriau o ran capasiti i gomisiynu yn y gwledydd ac y byddai cynyddu ei gwota yn dwysáu'r heriau hyn.
- 4.52 Mewn ymateb, tynnodd C4C sylw at y ffaith mai Llundain yw'r ganolfan gynhyrchu fwyaf yn y wlad o hyd, o ran nifer a maint y cwmnïau sydd wedi'u lleoli yno. Gan ddefnyddio data o'r Arolwg o Gwmnïau Darlledu Annibynnol, dadleuodd C4C fod cwmnïau cynhyrchu annibynnol llai yn cynrychioli cyfran fwy o'r prif gwmnïau yn y gwledydd a'r rhanbarthau o gymharu â

---

<sup>54</sup> [Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t. 4, 16, 20-22 ac mewn adroddiad wedi'i atodi ar gwotâu Channel 4 ar gyfer y Gwledydd a'r Rhanbarthau a baratowyd gan O&O.

<sup>55</sup> Cwestiynodd Northern Ireland Screen gywirdeb Ffigur 23 yn ymgynghoriad mis Rhagfyr, a oedd (gan ddefnyddio data O&O) yn dangos mai 10 cynhyrchydd gweithredol sydd yng Ngogledd Iwerddon yn 2021, gan awgrymu bod llawer mwy. Rydym yn hapus i egluro bod y ffigur hwn yn seiliedig ar leoliad pencadlysoedd cwmnïau a grwpiau unigol, ac felly nad oedd yn cynnwys swyddfeydd lleol cwmnïau sydd â phencadlysoedd mewn mannau eraill, nac is-gwmnïau grwpiau sydd wedi'u lleoli mewn mannau eraill.

<sup>56</sup> [Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t. 6-8.

<sup>57</sup> Llythyr gan gynrychiolwyr llywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a ddaeth i law ar 26/4/2024.

<sup>58</sup> Tudalen we: [Llythyr agored gan undebau creadigol i Ofcom a C4](#)

<sup>59</sup> [Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t. 15.

<sup>60</sup> [Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t. 4, 16, 20 ac mewn adroddiad wedi'i atodi ar gwotâu Channel 4 ar gyfer y Gwledydd a'r Rhanbarthau a baratowyd gan O&O.

<sup>61</sup> [Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t.6-7.

<sup>62</sup> [Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t. 16.

<sup>63</sup> Tudalen we: [Ymateb ar y cyd gan Northern Ireland Screen, Screen Scotland a Cymru Greadigol](#).

<sup>64</sup> Llythyr gan gynrychiolwyr llywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a ddaeth i law ar 26/4/2024.



Llundain.<sup>65</sup> Er bod C4C yn cydnabod mai dim ond procsi o gapasiti cwmnïau cynhyrchu yw trosiant, awgrymodd ei fod o leiaf yn arwydd rhannol o gapasiti i gynhyrchu cynnwys mewn genres tariff uwch a fydd yn hollbwysig er mwyn cyflawni ei strategaeth ddigidol yn llwyddiannus.<sup>66</sup> Nododd C4C y bydd ei strategaeth newydd yn golygu y bydd yn comisiynu llai o gynyrchiadau teledu tariff canolig. Roedd yn cydnabod bod nifer o gwmnïau cynhyrchu annibynnol yn y gwledydd sy'n gwneud cynnwys tariff uchel ar gyfer amrywiaeth o ddarlledwyr a gwasanaethau ffrydio, ond dywedodd fod ei arferion comisiynu yn y gwledydd yn gwro tuag at raglenni tariff canolig, gan nodi y byddai angen cyfnod o addasu er mwyn newid y cydbwysedd o ran comisiynu yn y gwledydd yn unol â'i strategaeth gyffredinol.<sup>67</sup> Yn 2023, roedd [3<] % o'r oriau a gomisiynwyd gan C4C o'r tu allan i Loegr yn rhaglenni tariff isel a chanolig, a [3<] % oedd y ffigur hwn yn Lloegr.<sup>68</sup>

- 4.53 Dywedodd C4C fod graddfa a chysondeb trosiant yn berthnasol am ei fod yn effeithio ar natur y staff y gall cwmnïau cynhyrchu annibynnol fforddio eu cyflogi a bod staff datblygu, ymchwil ac arbenigol yn hanfodol ar gyfer cynyrchiadau parhaus ar raddfa, ond ei bod yn ddud eu cyflogi ar sail barhaol, CALI<sup>69</sup>.<sup>70</sup> Cyfeiriodd C4C at dystiolaeth o'r Arolwg o Gwmnïau Darlledu Annibynnol sy'n dangos bod y prif gwmnïau annibynnol yn y gwledydd a'r rhanbarthau gryn dipyn yn llai o safbwynt personél ar gyfartaledd. Gwnaeth C4C hefyd gyfeirio at ddadansoddiad o sectorau cyflogaeth yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) sy'n dangos nad yw'r gwahaniaeth hwn mewn graddfa yn unigryw i fyd teledu ac y gellir ei weld yn y diwydiannau creadigol yn fwy cyffredinol; mae dros 50% o gyflogaeth yn yr is-sector 'Ffilm, Teledu a Cherddoriaeth' wedi'i chlystyru yn Llundain a De-ddwyrain Lloegr.<sup>71</sup>
- 4.54 Dywedodd C4C wrthym mai un mater allweddol sy'n ei wynebu yw sicrhau bod cwmnïau cynhyrchu llai yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gallu cael gafael ar y sgiliau a'r cyllid sy'n angenrheidiol i ymchwilio i syniadau newydd ar gyfer comisiynau posibl yn y dyfodol, a'u datblygu a'u cyflwyno'n llwyddiannus, gan gynhyrchu'r comisiynau sydd eisoes ar y gweill ar yr un pryd. Dywedodd fod ei gomisiynwyr yn gallu chwarae rhan bwysig o ran cefnogi cwmnïau cynhyrchu yn ystod y broses hon, a'u bod yn gwneud hynny, ond ei bod yn debygol y bydd angen rhagor o ymyriadau strategol, cyllid ac adnoddau hefyd.<sup>72</sup>
- 4.55 Gwnaeth C4C hefyd ailddatgan ei safbwynt ei bod yn fwy heriol comisiynu yn y gwledydd a'r rhanbarthau am fod graddfa'n fwy dibynnol ar gomisiynau unigol, yn hytrach na chanolfannau cynhyrchu sefydledig, gan ei gwneud yn anodd gwarantu sefydlogrwydd ac adnoddau cynhyrchu o flwyddyn i flwyddyn. Nododd fod hyn yn rhywbeth y mae wrthi'n gweithio'n frwd i'w wella; mae mentrau fel y Gronfa Twf Cwmnïau Annibynnol a'r Gronfa Cwmnïau Annibynnol Newydd a drafodir isod yn dystiolaeth o hyn.<sup>73</sup>

---

<sup>65</sup> Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Ebrill, Atodiad 2, t. 8.

<sup>66</sup> Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Ebrill, Atodiad 2, t. 8.

<sup>67</sup> Cyflwyniad mis Mai 2024 C4C, t. 4.

<sup>68</sup> Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Gorffennaf, t. 8.

<sup>69</sup> Cyfwerth ag amser llawn.

<sup>70</sup> Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Ebrill, Atodiad 2, t. 9-10.

<sup>71</sup> Tudalen we: [Employment in DCMS sectors and digital sector, July 2022 to June 2023](#).

<sup>72</sup> Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Gorffennaf, t. 12.

<sup>73</sup> Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Ebrill, Atodiad 2, t. 9.

- 4.56 Mewn ymateb i ymgynghoriad mis Rhagfyr, gwnaeth rhai rhanddeiliaid, er enghraifft Pact,<sup>74</sup> gwestiynu rhesymeg C4C dros ei honiadau ei bod yn gyffredin i gomisiynau yn y gwledydd gael eu gohirio neu eu canslo neu fethu cael eu hailgomiynu oherwydd ffactorau y tu hwnt i'w reolaeth. Gwnaethom ofyn i C4C roi rhagor o fanylion i ategu'r pwyntiau hyn. Mewn ymateb, esboniodd fod amrywiaeth o risgiau'n gysylltiedig â chynhyrchu rhaglenni teledu, a phan fydd y rhain yn bresennol mewn perthynas â chynyrchiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn benodol, y bydd hynny'n arwain at her i C4C oherwydd ei raddfa gymharol fach.<sup>75</sup> Dywedodd C4C y gall tarfu ar hyd yn oed garfan fach o raglenni olygu na fydd yn cydymffurfio â'i gwotâu MoE, sef risg a gaiff ei chwyddo pan effeithir ar raglenni sydd â chost uwch fesul awr, gan fod y rhain o reidrwydd yn gwneud cyfraniad mawr at fodloni ei gwotâu.<sup>76</sup> Ar ben hynny, nododd fod y cyfyngiadau i'w gyllideb cynnwys oherwydd yr arafu ar hyn o bryd yn yr hysbysebu (gweler paragraff 4.87 isod) yn golygu hynny[&lt;].<sup>77</sup>
- 4.57 Yn ymgynghoriad mis Rhagfyr, gwnaethom ddefnyddio data ar wariant MoE blaenorol i gynnal asesiad damcaniaethol o'r effaith y gallai colli rhaglenni tariff uchel ei chael ar wariant MoE C4C ar gyfer 2022. Ar sail ein gwaith modelu, gwelsom fod teitlau tariff uchel unigol fel *Screw* neu *Derry Girls* yn bwysig er mwyn i C4C gydymffurfio â'r cwota MoE.<sup>78</sup> Hefyd, cyflwynodd C4C nifer o astudiaethau achos cyfrinachol er mwyn esbonio'r heriau hyn, wedi'u categorio yn ôl y themâu canlynol: oedi a chostau ychwanegol; colli rhaglenni allweddol; rhaglenni'n dod i ben neu'n gorfod datblygu i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd; a rhaglenni nad ydynt yn bodloni gofynion y cwotâu ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau.
- 4.58 Ar ôl asesu gwahanol safbwyntiau rhanddeiliaid yn y gwledydd a C4C, rydym o'r farn bod llawer o ansicrwydd ynghylch a oes capasiti digonol yn y gwledydd i C4C fodloni gofynion cwotâu MoE uwch yn ogystal â'i strategaeth gomisiynu newydd.
- 4.59 Nid ydym yn credu bod profiad y BBC yn uniongyrchol berthnasol gan fod C4C ar raddfa lai o lawer a bod y BBC yn gallu bodloni ei gwotâu drwy ei ganolfannau cynhyrchu mewnol sylweddol ei hun ledled gwledydd a rhanbarthau'r DU tra bo C4C ar hyn o bryd yn gwbl ddiybnnol ar argaeledd cwmnïau cynhyrchu allanol.
- 4.60 O ran a allai'r heriau sy'n wynebu C4C wrth gomisiynu yn y gwledydd ei atal rhag bodloni cwotâu uwch, rydym yn cydnabod bod risgiau ac ansicrwydd sy'n rhan annatod o gynhyrchu rhaglenni teledu (fel y gwelir yn yr enghreifftiau a roddwyd gan C4C), ond nid yw'r rhain yn unigryw i gomisiynu yn y gwledydd. Serch hynny, rydym o'r farn y gallai strategaeth cynnwys C4C (sy'n canolbwyntio ar gomisiynau tariff uchel sy'n cael llawer o effaith) gynyddu effaith gohirio neu ganslo comisiynau yn y gwledydd ar ei allu i fodloni cwotâu sylweddol uwch.
- 4.61 Rydym hefyd yn cydnabod, pe bai C4C yn cynyddu nifer ei gomisiynau y tu allan i Loegr, y gall chwarae rhywfaint o ran yn y gwaith o helpu i dyfu'r sector a mynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n wynebu C4C o ran capasiti a graddfa cynhyrchu. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, rydym o'r farn y gallai cynyddu'r cwotâu y tu hwnt i 12% gael effaith negyddol ar gynaliadwyedd C4C yn y tymor hir. Mae C4C sy'n gryf yn ariannol yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall barhau i chwarae ei rôl bwysig o ran cefnogi'r sector cynhyrchu ledled y DU. Ar

<sup>74</sup> [Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t. 16.

<sup>75</sup> Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Ebrill, Atodiad 2, t. 6.

<sup>76</sup> Cyflwyniad mis Mai 2024 C4C, t. 4.

<sup>77</sup> Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Gorffennaf, t. 10.

<sup>78</sup> Ofcom, [Adnewyddu Trwydded Channel 4: Ymgynghoriad](#), 6 Rhagfyr 2023, t. 66.



ben hynny, bydd datblygu sector cynhyrchu cryfach a mwy cynaliadwy y tu allan i Loegr yn cymryd amser ac ymdrech barhaus gan yr holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, nid dim ond C4C.

### Mae gwell cynrychiolaeth a phortreadu ar gyfer cynulleidfaeodd yn y gwledydd yn bwysig ond nid yw cwotâu cynhyrchu yn gwarantu hynny

- 4.62 Roedd rhai rhanddeiliaid (fel Pact,<sup>79</sup> Northern Ireland Screen<sup>80</sup> a chynrychiolwyr o sector cynhyrchu Gogledd Iwerddon<sup>81</sup>) yn dadlau y byddai cwotâu o 16% neu uwch yn helpu i wella cynrychiolaeth a phortreadu C4C mewn perthynas ag amrywiaeth cymunedau yn y gwledydd.
- 4.63 Mae'r drefn cwotâu cynhyrchu rhanbarthol yn cefnogi'r sector cynhyrchu teledu yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae'r cwotâu hefyd yn cyfrannu at sicrhau amrywiaeth eang o raglenni sy'n adlewyrchu bywydau a diddordebau cymunedau ledled y DU mewn ffordd ddilys. Gall y ffaith bod rhaglen yn cael ei gwneud mewn gwlad benodol olygu ei bod yn adlewyrchu'r lle hwnnw, ond nid yw'n gwarantu hynny. Er enghraifft, cafodd *Screw*, sef un o'r rhaglenni drama gan C4C sydd wedi perfformio orau dros y blynyddoedd diwethaf, ei gwneud yn yr Alban ond ei gosod mewn carchar dychmygol yn Lloegr.<sup>82</sup> I'r graddau hynny, gallai cynyddu'r cwotâu gyfrannu at wella cynrychiolaeth a phortreadu ar gyfer cynulleidfaeodd yn y gwledydd, ond ni ellir gwarantu hynny.
- 4.64 Nid ydym yn credu y byddai'n briodol cyfyngu ar gynhyrchwyr yn y gwledydd i wneud rhaglenni sydd wedi'u gosod yn y man lle y maent wedi'u lleoli. Fel y gwnaethom ei ddweud yn ymgynghoriad mis Rhagfyr, mae nifer o ffyrdd o hyrwyddo amcan gwella cynrychiolaeth cynulleidfaeodd ledled y DU, er enghraifft gwella mynediad at gomisiynwyr a thrwy fentrau fel Cronfa Cwmnïau Annibynnol Newydd C4C, a drafodir yn fanylach isod.
- 4.65 Un ffordd bwysig rydym yn dwyn C4C i gyfrif mewn perthynas â'i ddyletswyddau i adlewyrchu gwahanol gymunedau ledled y DU ac apelio atynt yw drwy ein hadroddiad blynyddol mewn ymateb i Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau C4C ('Adroddiad SMCP').<sup>83</sup> Mewn Adroddiadau SMCP diweddar, rydym wedi pwysu ar C4C i wneud mwy i gynrychioli gwahanol wledydd y DU yn ei raglenni. Rydym hefyd wedi adrodd ar agweddau eraill ar amrywiaeth ddiwylliannol y dylai C4C eu cynrychioli, ac mae'n eu cynrychioli, gan gynnwys anabledd ac ethnigrwydd. Credwn ei bod yn briodol edrych ar y ffordd y mae C4C yn cyflawni'r agwedd hon ar ei gylch gwaith yn gyffredinol.

---

<sup>79</sup> [Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t. 21.

<sup>80</sup> [Ymateb Northern Ireland Screen i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t. 4.

<sup>81</sup> [Ymateb sector cynhyrchu teledu annibynnol Gogledd Iwerddon i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t. 2.

<sup>82</sup> [Screw](#), Channel 4 Streaming.

<sup>83</sup> O dan adran 198B o'r Deddf, mae'n rhaid i C4C gyhoeddi datganiad blynyddol o bolisi cynnwys cyfryngau sy'n nodi ei gynlluniau ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau cynnwys cyfryngau yn ystod y flwyddyn i ddod ac yn adrodd ar ei berfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf. Rhaid i C4C ymgynghori ag Ofcom wrth baratoi'r datganiad a rhoi sylw i ganllawiau Ofcom. O dan adran 266 o'r Ddeddf, rhaid i C4C baratoi datganiad tebyg mewn perthynas â chyflawni cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus a rhwymedigaethau trwydded Channel 4. Yn ein canllawiau, gofynnwn i C4C gyfuno'r datganiadau mewn dogfen rydym yn cyfeirio ati fel Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau (SMCP) C4C. Mae ymateb Ofcom i adroddiadau SMCP C4C, a'n Hadroddiad SMCP diweddaraf, i'w gweld yn: [Llythyr i Gorfforaeth Channel 4 ynghylch ei Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau 2022](#).

## Mae Channel 4 mewn sefyllfa wahanol i'r BBC

- 4.66 Un o'r prif ddadleuon a wnaed gan randdeiliaid o blaid cwotâu o 16% a chwotâu sy'n benodol i'r gwledydd oedd y byddent yn cyd-fynd â rhwymedigaethau'r BBC.<sup>84</sup> Er enghraifft, roedd Screen Scotland yn dadlau bod rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ym mherchnogaeth y cyhoedd, sef y BBC a C4, gyflawni eu cylch gwaith a'u rhwymedigaethau ar sail deg ledled y DU.<sup>85</sup>
- 4.67 Er ei fod ym mherchnogaeth y cyhoedd, caiff C4C ei ariannu'n fasnachol yn gyfan gwbl a rhaid iddo fynd ati ei hun i wneud yr holl refeniw a fuddsoddir ganddo yn ei gyllideb cynnwys ac felly mewn cynhyrchu yn y gwledydd. Daw ei refeniw yn bennaf o hysbysebu, er ei fod wedi gosod targed i 10% ddod o ffynonellau nad ydynt yn gysylltiedig â hysbysebu erbyn 2025. Mae C4C yn wynebu ansicrwydd yn y farchnad hysbysebu, sydd ar hyn o bryd mewn cyfnod o ddirywiad. Caiff Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU eu hariannu drwy ffi'r drwydded. O ystyried model cyllido'r BBC ac o dan ei Siarter Frenhinol, mae gan y BBC fwy o rwymedigaethau na darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol. Felly, nid ydym yn credu bod y ffaith bod gan y BBC gwotâu sy'n benodol i'r gwledydd ac sy'n gwneud cyfanswm o 16% yn ffactor perthnasol wrth bennu'r amodau priodol ar gyfer Channel 4.

## Ni allwn asesu effaith dileu cyfyngiad darlledwr-gyhoeddwr C4C ar hyn o bryd

- 4.68 Awgrymodd Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban<sup>86</sup> a Pact<sup>87</sup> na fyddai cadw'r cwotâu MoE ar eu lefel bresennol yn lliniaru'r effaith ar y sector cynhyrchu annibynnol yn y gwledydd yn sgil y posibilrwydd y bydd C4C yn symud i faes cynhyrchu, ac felly roeddent o blaid cyflwyno cwotâu o 16%.
- 4.69 Fel y nodwyd yn adran 3, mae'r Ddeddf Cyfryngau yn galluogi newid sylweddol i fodel gweithredu C4C drwy ddileu'r 'cyfyngiad darlledwr-gyhoeddwr', ac felly ganiatáu i C4C wneud rhaglenni i'w darlledu ar Channel 4 am y tro cyntaf. Pan gyflwynwyd y Bil Cyfryngau i'r Senedd ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol, os bydd C4C yn symud i faes cynhyrchu, y caiff lefel ei gwota cynhyrchu annibynnol ei chodi o 25% i 35% o raglenni cymwys.<sup>88</sup> Fodd bynnag, nid yw C4C wedi cyhoeddi cynlluniau eto i nodi a fydd yn manteisio ar ddileu'r cyfyngiad ar gynhyrchu, na phryd neu sut y bydd yn gwneud hynny. Yn ei gyflwyniad ym mis Mai 2024, dywedodd C4C, er ei bod yn bosibl y bydd yn datblygu capasiti cynhyrchu mewnol yn ystod cyfnod nesaf y drwydded, mai tyfu'n raddol fyddai'r capasiti hwn, ac nad yw'n gwybod ar hyn o bryd ble y byddai'n wedi'i leoli.<sup>89</sup>
- 4.70 Rydym o'r farn bod gormod o ansicrwydd ynglŷn â'r newid posibl hwn i ni allu rhoi sylw iddo wrth ystyried y lefel briodol ar gyfer y cwotâu MoE. Pe bai C4C yn symud i faes cynhyrchu, byddai'n ddatblygiad sylweddol yn yr ecoleg gynhyrchu, er ei bod yn debygol y byddai'n digwydd yn raddol. Oherwydd ei arwyddocâd, byddem yn craffu'n ofalus ar yr effaith ar y sector cynhyrchu drwy ein Hadroddiad SMCP. Ar ben hynny, mae'r Ddeddf Cyfryngau yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal adolygiad o'r effaith ar y ffordd y caiff y cylch gwaith darlledu

---

<sup>84</sup> Mae'n ofynnol i'r BBC gynhyrchu 8% o'i oriau a'i wariant rhwydwaith yn yr Alban, 5% yng Nghymru a 3% yng Ngogledd Iwerddon. Tudalen we: [Ymateb ar y cyd gan Northern Ireland Screen, Screen Scotland a Cymru Greadigol; Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t.5.](#)

<sup>85</sup> [Ymateb Screen Scotland i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t.6.](#)

<sup>86</sup> [Ymateb Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 7.](#)

<sup>87</sup> [Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr, t. 14.](#)

<sup>88</sup> [Datganiad gan Lucy Frazer, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 8 Tachwedd 2023.](#)

<sup>89</sup> Cyflwyniad mis Mai 2024 C4C, t. 7.

gwasanaeth cyhoeddus ei gyflawni pe bai C4C yn gwneud rhaglenni gyda'r bwriad o'u darlledu ar Channel 4.<sup>90</sup>

## Cynyddu'r cwotâu i 12% yw'r opsiwn a ffefrir gennym ar gyfer y drwydded newydd erbyn hyn

- 4.71 Ar ôl ystyried y ffactorau a nodir uchod, yr holl dystiolaeth a'r ymatebion i ymgynghoriad mis Rhagfyr a'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan C4C, cynyddu'r cwotâu i 12% yw'r opsiwn a ffefrir gennym ar gyfer y drwydded newydd erbyn hyn.

## Ychwanegu cwotâu sy'n benodol i'r gwledydd

### Ymatebion rhanddeiliaid

- 4.72 Roedd llawer o randdeiliaid (gan gynnwys cynrychiolwyr o sectorau cynhyrchu annibynnol yr Alban a Gogledd Iwerddon, Cymru Greadigol, Northern Ireland Screen a Screen Scotland,<sup>91</sup> Directors UK,<sup>92</sup> Cyngres Undebau Llafur yr Alban,<sup>93</sup>TAC,<sup>94</sup> cynrychiolwyr o lywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon<sup>95</sup> a Phwyllgor Cyngori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon<sup>96</sup>) o'r farn y dylem gyflwyno cwotâu unigol, yn ychwanegol at gwotâu MoL ac MoE Channel 4, ar gyfer cynhyrchu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at y ffaith bod gan y BBC gwotâu sy'n benodol i'r gwledydd yn seiliedig ar gyfran o'r boblogaeth<sup>97</sup> ac roeddent yn cwestiynu pam na ddylai C4C gael hynny hefyd.
- 4.73 Roedd nifer o randdeiliaid (fel Dr Phil Ramsey,<sup>98</sup> Pwyllgor Cyngori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon,<sup>99</sup> Northern Ireland Screen<sup>100</sup> a chynrychiolwyr o sector cynhyrchu annibynnol Gogledd Iwerddon<sup>101</sup>) yn dadlau nad yw Gogledd Iwerddon yn benodol yn cael ei chynrychioli'n ddigonol o ran gwariant ac allbwn C4C.
- 4.74 Hefyd, cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at ddiffyg mynediad at gomisiynwyr yn y gwledydd a'r rhanbarthau, er enghraifft nododd Pwyllgor Cyngori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon, oherwydd nad oes swydd comisiynydd amser llawn yng Ngogledd Iwerddon, fod gan gwmnïau cynhyrchu lai o bwyntiau mynediad at y sianel, sy'n ei gwneud yn anos gwneud cais am gomisiynau.<sup>102</sup> Dywedodd rhanddeiliaid eraill wrthym fod mynediad at gomisiynwyr yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn fuddiol i ddatblygiad gyrfa unigolion a datblygiad y sector cynhyrchu ehangach.<sup>103</sup>

---

<sup>90</sup> O dan adran 31(3) o Ddeddf Cyfryngau 2024, mae'n ofynnol i ni wneud hyn yn ein hadolygiad darlledu gwasanaeth cyhoeddus cyntaf sy'n cwmpasu cyfnod a ddaw i ben dair blynedd ar ôl i C4C ymgymryd â gwneud rhaglen gyda'r bwriad o'i darlledu ar Channel 4.

<sup>91</sup> Tudalen we: [Ymateb ar y cyd gan Northern Ireland Screen, Screen Scotland a Cymru Greadigol](#).

<sup>92</sup> Tudalen we: [Llythyr gan Directors UK i Ofcom ynghylch y Gwledydd a'r Rhanbarthau](#)

<sup>93</sup> Tudalen we: [Llythyr agored gan undebau creadigol i Ofcom a C4](#)

<sup>94</sup> [Ymateb TAC i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t.4.

<sup>95</sup> Llythyr gan gynrychiolwyr llywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a ddaeth i law ar 26/4/2024.

<sup>96</sup> [Ymateb Pwyllgor Cyngori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t. 5-6.

<sup>97</sup> O dan ei Drwydded Weithredu, mae cwotâu'r BBC yn 8% o oriau a gwariant cynrychiadau rhwydwaith yn yr Alban, 5% yng Nghymru a 3% yng Ngogledd Iwerddon.

<sup>98</sup> [Ymateb Dr Phil Ramsey i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t. 4.

<sup>99</sup> [Ymateb Pwyllgor Cyngori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t.2-3, 5-6.

<sup>100</sup> [Ymateb NI Screen i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t. 1-8.

<sup>101</sup> [Ymateb sector cynhyrchu teledu annibynnol Gogledd Iwerddon i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t.3-8.

<sup>102</sup> [Ymateb Pwyllgor Cyngori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t.6.

<sup>103</sup> [Ymateb TAC i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t.3; Tudalen we: [Llythyr gan Directors UK i Ofcom ynghylch y Gwledydd a'r Rhanbarthau](#).

## Byddai cwotâu sy'n benodol i'r gwledydd yn effeithio ar hyblygrwydd C4C o ran comisiynu

- 4.75 Gwnaethom ystyried cwotâu sy'n benodol i'r gwledydd yn y broses ailrwyddedu ddiwethaf yn 2014. Ar y pryd, daethom i'r casgliad, er y gallai cwotâu o'r fath fod o fudd i'r cynhyrchwyr perthnasol a'r sectorau cynhyrchu yn y gwledydd, y byddent yn gyfyngiad mwy sylweddol na chwotâu MoE cyffredinol ar gomisiynu ar sail teilyngddod ac amrywiaeth cyflenwyr.<sup>104</sup>
- 4.76 Rydym yn cydnabod y byddai gwarantu lefel sylfaenol o gynhyrchu ym mhob gwlad yn golygu y byddai cwotâu sy'n benodol i'r gwledydd yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y sectorau cynhyrchu yn yr ardaloedd hynny. Rydym yn derbyn bod gwariant ac oriau cynhyrchu yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol, ac ar gyfer C4C, wedi bod yn sylweddol is yn hanesyddol nag yng Nghymru a'r Alban, a nodwn fod darpariaeth C4C yn y gwledydd unigol wedi amrywio'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.
- 4.77 Yn ei gyflwyniad ym mis Mai 2024, dywedodd C4C fod crynodiad yr adnoddau cynhyrchu yn Llundain mewn perthynas â gweddill y wlad yn golygu nad yw seilio cwotâu ar y boblogaeth (h.y. 8% ar gyfer yr Alban, 5% ar gyfer Cymru a 3% ar gyfer Gogledd Iwerddon) yn ddichonadwy. Nododd C4C, o ystyried ei fod ar raddfa lai na'r BBC, y byddai bodloni cwotâu ar wahân ar gyfer pob un o'r gwledydd yn dibynnu ar nifer cymharol fach o gynyrchiadau. Roedd C4C yn cydnabod bod gohirio a chanslo yn rhan arferol o'r broses o gynhyrchu rhaglenni teledu (fel y trafodir ym mharagraff 4.56) ond dywedodd, o ran bodloni cwotâu sy'n benodol i'r gwledydd, y byddai'r risg yn sgil gohirio neu ganslo rhaglenni unigol yn uchel iawn. Roedd C4C o'r farn y gallai gohirio un neu ddau gynhyrchiad yn unig gael effaith sylweddol ar ei allu i fodloni cwotâu mewn gwlad benodol, heb ddigon o hyblygrwydd i addasu yn unol â hynny.<sup>105</sup>
- 4.78 Fel y nodir ym mharagraffau 4.51-4.61 mewn perthynas â chwotâu MoE uwch yn gyffredinol, ar ôl asesu gwahanol safbwyntiau rhanddeiliaid yn y gwledydd a C4C, rydym o'r farn bod cryn dipyn o ansicrwydd ynghylch a oes capasiti digonol ym mhob un o'r gwledydd er mwyn i C4C fodloni gofynion cwotâu sy'n benodol i'r gwledydd, a chyflawni ei strategaeth gomisiynu newydd ar yr un pryd. Fodd bynnag, os bydd problemau o ran capasiti, rydym o'r farn y byddai'r rhain yn debygol o gael eu dwysáu yn sgil cyflwyno cwotâu sy'n benodol i'r gwledydd gan y byddai gan C4C gronfa lawer llai o gynhyrchwyr i gomisiynu ohoni ac felly y byddai'n fwy agored i amrywiadau mewn sgiliau a chapasiti i ddarparu'r math o raglenni tariff uchel sy'n cael llawer o effaith y mae wedi dweud y bydd yn canolbwyntio arnynt yn ystod cyfnod nesaf y drwydded. Ar ben hynny, nodwyd gennym ym mharagraff 4.60 y gallai strategaeth cynnwys C4C ddwysáu effaith gohirio neu ganslo comisiynau yn y gwledydd ar ei allu i fodloni cwotâu MoE uwch. Rydym yn cytuno â C4C y byddai'r ddynmeg hon yn dwysáu ymhellach yng nghyd-destun cwotâu sy'n benodol i'r gwledydd, y byddai'n eu bodloni â nifer cymharol fach o gynyrchiadau.
- 4.79 Felly, nid ydym yn credu bod y ffaith bod gan y BBC gwotâu sy'n benodol i'r gwledydd yn ffactor perthnasol wrth bennu'r amodau priodol ar gyfer Channel 4. Mae gennym ofyniad penodol o dan Atodlen 2 i Gytundeb y BBC i osod cwotâu i'r BBC ar gyfer cynyrchiadau

---

<sup>104</sup> Ofcom, [Renewal of the Channel 4 Licence: Statement](#), 11 Mawrth 2014, t. 14.

<sup>105</sup> Cyflwyniad mis Mai 2024 C4C, t. 7.

rhanbarthol yn y gwledydd unigol. Nid oes gofyniad statudol o'r fath mewn perthynas â Channel 4. Rydym o'r farn y gallai cyflwyno cwotâu sy'n benodol i'r gwledydd ar gyfer Channel 4 gael effaith sylweddol ar hyblygrwydd C4C i gyflawni ei drawsnewidiad digidol. Byddent yn lleihau gallu C4C i wneud penderfyniadau comisiynu ar sail teilyngdod er mwyn cyflawni ei amcanion strategol a masnachol. Yn y pen draw, rydym o'r farn na fyddai er budd cynulleidfaoedd petai C4C yn comisiynu rhaglenni er mwyn bodloni gofynion ei gwotâu, yn hytrach nag am eu bod yn cynrychioli'r syniadau gorau.

- 4.80 Er nad ydym yn credu bod cwotâu sy'n benodol i'r gwledydd yn briodol, rydym yn credu y dylai C4C sicrhau ei fod yn dosbarthu ei wariant MoE mewn ffordd nad yw'n rhoi'r un genedl unigol dan anfantais. Rydym yn cynnig cadw'r gofyniad bod yn rhaid i wariant MoE fod yn berthnasol i ganolfannau cynhyrchu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ym mhob blwyddyn galendr. Yn ogystal, trafodwn ym mharagraffau 4.92-4.98 sut rydym yn bwriadu gofyn i C4C adrodd ar ei strategaeth ar gyfer comisiynu ym mhob gwlad unigol, a fyddai'n ein galluogi i'w ddwyn i gyfrif yn well yn y maes hwn.

### Nid cwotâu yw'r unig ffordd y mae C4C yn cyfrannu at y sector cynhyrchu yn y gwledydd

- 4.81 Cyflwynodd nifer o randdeiliaid (gan gynnwys Pact,<sup>106</sup> cynrychiolwyr o lywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, Screen Scotland, Cymru Greadigol a Northern Ireland Screen<sup>107</sup>) y farn, er y gall mentrau hyfforddi a sgiliau C4C arwain at fanteision pwysig, mai'r allwedd i ddatblygu sector cynhyrchu cynaliadwy yn y gwledydd yw comisiynu; felly, roeddent o blaid cwotâu MoE uwch ar gyfer C4C. Gwnaethom ofyn i C4C ddarparu tystiolaeth o effaith ei fentrau talent a sgiliau.<sup>108</sup> Rydym wedi crynhoi detholiad o'r rhain isod, gan ganolbwyntio'n benodol ar dystiolaeth o fanteision yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

#### **Y Gronfa Cwmnïau Annibynnol Newydd (EIF)**

Lansiwyd yr EIF yn 2020 ac mae'n gyfle blynyddol i gwmnïau cynhyrchu annibynnol yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn benodol gystadlu am gyllid, cymorth ac amser cyswllt â chomisiynwyr. Hyd yma, mae cwmnïau cynhyrchu annibynnol yn y gwledydd a'r rhanbarthau wedi sicrhau comisiynau a datblygiadau â thâl gwerth dros £17m.

#### **Y Gronfa Twf Cwmnïau Annibynnol (IGF)**

Mae'r IGF yn un o fentrau C4C sydd â'r nod o ddatblygu sgiliau, talent ac arbenigedd yn y sector cynhyrchu annibynnol yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Drwy ddarparu buddsoddiad i gwmnïau cynhyrchu annibynnol tra byddant yn dal yn fach a/neu'n egin gwmnïau, mae'n rhoi'r modd iddynt dyfu a sicrhau cynaliadwyedd yn y tymor hir. Dywed C4C fod llawer o gwmnïau'r IGF yn defnyddio buddsoddiad C4C i ariannu prosesau recriwtio, er mwyn datblygu capasiti a galluogi'r arweinwyr i dyfu eu cwmnïau. Ar ddiwedd 2023, roedd C4C wedi buddsoddi cyfanswm o £25.5m mewn 29 o gwmnïau ers ei sefydlu. Mae 61% o 18 cwmni cynhyrchu annibynnol presennol yr IGF wedi'u lleoli yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

<sup>106</sup> [Ymateb Pact i ymgynghoriad mis Rhagfyr](#), t. 20.

<sup>107</sup> Tudalen we: [Ymateb ar y cyd gan Northern Ireland Screen, Screen Scotland a Cymru Greadigol](#).

<sup>108</sup> Ymateb C4C i'r cais am wybodaeth ym mis Ebrill, Atodiad 2, t. 2-7.

### Hwb i Fusnesau 4Skills

Nod cynllun Hwb i Fusnesau 4Skills, a lansiwyd yn 2023, yw sicrhau bod cwmnïau cynhyrchu annibynnol newydd yn cael eu cefnogi drwy gamau twf allweddol, gan gynnwys drwy gyfnodau o anawsterau economaidd. Mae C4C yn cefnogi naw cwmni cynhyrchu annibynnol yn y gwledydd a'r rhanbarthau wrth i'r diwydiant fynd drwy'r arafiad mewn comisiynu.

- 4.82 Mae cefnogi datblygiad pobl â thalent greadigol yn elfen bwysig o gylch gwaith C4C ac rydym o'r farn bod C4C wedi darparu tystiolaeth o'i ymrwymiad i fwrw ymlaen â'r amcan hwn, yn enwedig mewn perthynas â'r gwledydd a'r rhanbarthau. Mae C4C wedi cyhoeddi y bydd yn dyblu ei fuddsoddiad yn y mentrau hyn o £5m i £10m erbyn 2025.<sup>109</sup> Yn ei gyflwyniad ym mis Mai 2024, noda C4C fod llawer o'r gwaith hwn wedi cael ei wneud mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys asiantaethau sgrin a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill. Mae'n credu y bydd y cynlluniau amrywiol y mae C4C a sefydliadau eraill yn eu cefnogi yn helpu i annog twf yn y sector cynhyrchu yn y gwledydd dros amser, ac y dylai hynny yn ei dro wneud cwotâu MoE uwch yn fwy realistig yn fasnachol i C4C.<sup>110</sup>
- 4.83 Nodwn y pwyntiau a godwyd gan rhanddeiliaid ynglŷn â mynediad cwmnïau cynhyrchu yn y gwledydd at gomisiynwyr C4C. Er mai mater i C4C yw lleoliad ei staff, rydym o'r farn y dylai C4C ystyried sut i gryfhau mynediad at gomisiynwyr ar gyfer cynhyrchwyr yn y gwledydd. Fel rhan o'r wybodaeth ychwanegol rydym yn ymgynghori arni sy'n ei gwneud yn ofynnol i C4C gyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei ddull o gomisiynu yn y gwledydd (gweler paragraffau 4.92-4.98), rydym yn cynnig y dylai C4C nodi'n benodol sut mae wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid ym mhob gwlad a sut mae'n bwriadu gwneud hynny yn y flwyddyn nesaf.

## Byddai angen amser ar C4C i roi cwotâu uwch ar waith

- 4.84 Yn ei gyflwyniad ym mis Mai 2024, dywedodd C4C na ddylai'r cynnydd i 12% roedd yn ei awgrymu ddiwydd cyn 2030. Byddai hyn yn golygu y byddai'r cwotâu uwch ar waith ar gyfer ail hanner cyfnod 10 mlynedd arfaethedig y drwydded. Nododd C4C ei bod wedi cymryd sawl blwyddyn iddo addasu i'r cwotâu 9% a ddaeth i rym yn 2020 a dadleuodd, er bod y cynnydd blaenorol ar raddfa fwy, ei fod yn gweithredu mewn mwy o ansicrwydd heddiw ac y bydd angen cyfnod tebyg o addasu er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy.<sup>111</sup> Dywedodd fod cyflawni dros 9% yn dal yn heriol ac, er bod Channel 4 wedi sicrhau gwariant o [X]% yn 2023, rhagwelir y bydd ei gyfran o wariant yn y gwledydd yn is yn 2024 na'i berfformiad yn 2023.<sup>112</sup>
- 4.85 Dywedodd C4C hefyd y dylai amser gael ei gynnwys yn hyn o beth[X].<sup>113</sup> Dywedodd wrthym ei bod yn debygol y byddai angen i C4C gynyddu buddsoddiad yn ei fentrau talent a sgiliau presennol (gweler paragraffau 4.81-4.83) a rhoi cymorth comisiynu ychwanegol i gynhyrchwyr, asiantaethau sgrin a'r gweinyddiaethau datganoledig yn y gwledydd er mwyn cefnogi twf yn y sector cynhyrchu yn y gwledydd a bodloni cwotâu uwch yn gyson. Dywedodd y byddai hyn yn golygu bod angen buddsoddiad ac adnoddau ychwanegol mewn

<sup>109</sup> Tudalen we: [Channel 4 targets new wave of investment into overlooked founders.](#)

<sup>110</sup> Cyflwyniad mis Mai 2024 C4C, t. 3.

<sup>111</sup> Cyflwyniad mis Mai 2024 C4C, t. 6.

<sup>112</sup> Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Gorffennaf, t. 11-12.

<sup>113</sup> Cyflwyniad mis Mai 2024 C4C, t. 6.



cyfnod pan fo'r farchnad hysbysebu yn heriol a phan fydd yn canolbwyntio ar roi ei strategaeth *Fast Forward* ar waith.<sup>114</sup>

- 4.86 Ar ben hynny, dywedodd C4C wrthym y byddai angen amser arno i ddatblygu ei strategaeth gomisiynu, a fydd yn golygu bod buddsoddiad yn canolbwyntio fwyfwy ar lai o gynyrchiadau, ond cynyrchiadau sy'n cael llawer o effaith, ac yn benodol ar gyfran fwy o gynyrchiadau wedi'u sgriptio. Nododd ei bod yn aml yn cymryd mwy o amser i gwblhau cynyrchiadau wedi'u sgriptio a'u bod yn tueddu i fod yn fwy tebygol o gael eu gohirio (gan gynyddu'r risg o beidio â chydymffurfio â chwota mewn blwyddyn benodol). Hefyd, dywedodd y byddai cael llai o gynnwys yn lleihau'r hyblygrwydd pe bai cynyrchiadau'n cael eu gohirio. Felly, dywedodd C4C y byddai bodloni cwotâu MoE yn parhau i fod yn heriol am nifer o flynyddoedd ac y dylai unrhyw gynnydd ganiatáu amser i C4C a'r sector ehangach newid eu ffocws comisiynu.<sup>115</sup>
- 4.87 Pan wnaethom benderfynu cynyddu'r cwotâu MoE yn 2014, gwnaethom ganiatáu cyfnod addasu pum mlynedd i C4C: daeth y cwotâu 9% i rym o 2020 ymlaen. Pe baem yn cynyddu lefel y cwotâu i 12%, er y byddai'r cynnydd yn llai (3 phwynt canran yn hytrach na 6 phwynt canran), byddai'n gynnydd ychwanegol at ofynion Channel 4 o ran y gwledydd ac yn dod i rym yn gymharol fuan ar ôl y cynnydd yn 2020. Yn ogystal â hynny, fel yr esbonnir uchod (paragraffau 3.11-3.17), mae perfformiad diweddar C4C o ran refeniw wedi bod yn is na'r lefelau disgwylidig. Nododd C4C fod yr arafiad yn y farchnad hysbysebu a ddechreuodd yn 2023 yn parhau i effeithio ar ei arferion comisiynu. Dywedodd wrthym fod ei ragolygon diweddaraf yn dangos y bydd gan bob blwyddyn ar ôl 2021/2022 hyd at 2026 wariant is ar gynnwys na 2021/2022<sup>116</sup>
- 4.88 Mae C4C o'r farn, yng nghyd-destun cyllidebau llai, y byddai newid i gwotâu MoE uwch yn rhy gyflym yn ei gwneud yn fwy heriol taro'r cydbwysedd cywir yn ei amserlen gomisiynu. Nododd fod yr amserlen wedi'i strwythuro mewn ffordd sy'n sicrhau y bydd C4C yn cyflawni ei gylch gwaith gan cyrraedd targedau'r sefydliad i gynyddu refeniw a lefelau gwylio digidol hefyd. Ar yr un pryd, rhaid i'r amserlen alluogi C4C i gyflawni ei rwymedigaethau trwydded eraill, a rhagori arnynt yn ddefnyddol, ynghyd â'i ymrwymiad gwirfoddol i wario 50% ar raglenni MoL. Barn C4C yw y gallai cynyddu ei rwymedigaeth MoE cyn pryd ei orfodi i flaenoriaethu comisiynu cynnwys er mwyn bodloni ei gwotâu, yn hytrach nag am mai'r cynnwys hwnnw sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni ei flaenoriaethau. Pwysleisiodd fod angen digon o amser a hyblygrwydd i ryddhau cyllideb a chyfleoedd amserlennu, ac i allu datblygu cynnwys newydd a fydd yn diwallu anghenion ei gynulleidfaedd.<sup>117</sup>
- 4.89 Mae C4C yn gweithredu mewn amgylchedd sy'n heriol yn ariannol. Mae'r lleihad mewn gwylio llinol yn parhau, gan greu ansicrwydd ynglŷn â chyfanrwydd refeniw hysbysebu llinol a thanlinellu'r angen i C4C gyflymu ei drawsnewidiad digidol. Byddai angen i C4C reoli cynnydd yn ei gwotâu ar yr un pryd â chyflawni strategaeth *Fast Forward*, a byddai angen i gomisiynwyr a chynhyrchwyr addasu i flaenoriaethau newydd.
- 4.90 O ystyried ei sefyllfa ariannol, ansicrwydd yn y farchnad ehangach, a'r angen i C4C ganolbwyntio ar gyflymu ei drawsnewidiad digidol gan sicrhau bod ei allbwn cynnwys yn diwallu anghenion cynulleidfaedd ar yr un pryd, rydym o'r farn bod cyfnod addasu pum

---

<sup>114</sup> Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Gorffennaf, t. 12.

<sup>115</sup> Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Gorffennaf, t. 10.

<sup>116</sup> Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Gorffennaf, t. 10.

<sup>117</sup> Ymateb C4C i gais am wybodaeth ym mis Gorffennaf, t. 10.

mlynedd ar gyfer cwotâu MoE uwch yn rhesymol. Felly, rydym yn cynnig y dylai'r cynnydd arfaethedig yn y cwotâu i 12% ddod i rym o 2030 ymlaen.

- 4.91 Rydym yn disgwyl i fuddsoddiad C4C mewn rhaglenni y tu allan i Loegr gynyddu dros y cyfnod rhwng 2025 a 2030 er mwyn paratoi ar gyfer y cwotâu uwch o 2030 ymlaen a byddwn yn defnyddio ein Hadroddiad SMCP blynyddol i asesu ei gynnydd.

## Byddwn yn diweddarau ein canllawiau ar y ffordd rydym yn disgwyl i C4C adrodd ar ei ddarpariaeth y tu allan i Loegr ac yn gwneud mwy o waith monitro ar ei berfformiad

- 4.92 Am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 4.75-4.80, nid ydym yn credu bod cwotâu sy'n benodol i'r gwledydd yn gymesur ac nid ydym yn cynnig eu hychwanegu at y drwydded. Fodd bynnag, rydym o'r farn y dylai C4C gyhoeddi rhagor o wybodaeth am ei ddull o ddarparu yn y gwledydd a'r effaith y gall hyn ei chael ar gynhyrchwyr ledled y DU a'r cynulleidfaoedd y mae angen iddo eu denu at ei gynnwys.
- 4.93 O dan adran 266 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i C4C gyhoeddi datganiad blynyddol o bolisi rhaglenni sy'n nodi ei gynigion ar gyfer sicrhau y caiff rhwymedigaethau trwydded a chylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus Channel 4 eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ganlynol, gan gynnwys ei gwotâu MoE. Rhaid iddo wneud hyn gan roi sylw i ganllawiau Ofcom. Yn ein [canllawiau](#), gofynnwn i C4C gyfuno'r datganiad hwn â'i ddatganiad blynyddol o bolisi cynnwys cyfryngau o dan adran 198B o'r Ddeddf a chyfeiriwn at y ddogfen gyfun fel Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau (SMCP) C4C.
- 4.94 Rydym yn bwriadu ymgynghori ar ganllawiau newydd yn nes ymlaen eleni fel rhan o'r broses o roi'r Ddeddf Cyfryngau ar waith (gweler rhagor o wybodaeth yn ein [Map tuag at Reoleiddio](#)). Daw'r canllawiau hynny i rym pan gaiff y trwyddedau darlledu gwasanaeth cyhoeddus eu hamrywio i roi'r Ddeddf Cyfryngau ar waith. Er mwyn ymateb i bryderon rhanddeiliaid, yn y cyfamser rydym yn cynnig ysgrifennu i C4C gan roi rhagor o arweiniad ar yr hyn rydym yn disgwyl iddo ei nodi yn yr SMCP ynglŷn â'i ddull o gomisiynu ym mhob gwlad unigol.
- 4.95 Rydym yn cynnig gofyn i C4C nodi:
- sut mae ei ddull o gomisiynu y tu allan i Loegr yn cefnogi ac yn ysgogi'r sector cynhyrchu teledu yn y gwledydd;
  - ei strategaeth ar gyfer comisiynu ym mhob gwlad unigol dros y flwyddyn nesaf a sut mae wedi cyflawni ei strategaeth ar gyfer y flwyddyn flaenorol;
  - ei gynlluniau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynulleidfaoedd yn y gwledydd yn ystod y flwyddyn nesaf a sut mae wedi ymgysylltu â nhw dros y flwyddyn flaenorol.
- 4.96 Fel sy'n wir ar hyn o bryd, yn ystod y cyfnod rhwng 2025 a 2030, bydd C4C yn adrodd ar ei gynnydd tuag at y cwota arfaethedig newydd o flwyddyn i flwyddyn, o ran cyfran yr oriau a'r gwariant a ddyrennir i'r gwledydd. Byddwn yn parhau i fonitro hyn ac yn craffu ar gynnydd C4C tuag at fodloni'r cwotâu uwch drwy ein Hadroddiadau SMCP blynyddol.
- 4.97 Rydym o'r farn y bydd y wybodaeth ychwanegol hon yn cynnig tryloywder ac yn galluogi Ofcom i graffu'n fwy effeithiol ar berfformiad a strategaeth gynhyrchu'r C4C yn y gwledydd drwy broses yr Adroddiad SMCP blynyddol. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro gwariant C4C yn y gwledydd unigol yn agos. Byddwn yn trafod gyda C4C a ddylid cynnwys metrigau ychwanegol yn ei fframwaith adrodd a mesur newydd a fydd yn rhoi gwerthusiad mwy cywir



a chraff o effaith ei gyfraniad at gynhyrchu ledled y gwledydd. Gallai adroddiadau ychwanegol ar bwyllgorau datganoledig perthnasol gynyddu tryloywder ynglŷn â strategaethau comisiynu C4C yn y gwledydd.

- 4.98 Dylai tryloywder, didwylledd ac eglurder fod yn gonglfaen i waith ymgysylltu cyhoeddus C4C â rhanddeiliaid yn y gwledydd. Bydd o fudd i'r diwydiant ehangach ac mae'n hollbwysig i'n gallu i ddwyn C4C i gyfrif.

## Casgliad

- 4.99 Gan ystyried y safbwyntiau a'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan rhanddeiliaid mewn ymateb i'n hymgyngoriad ym mis Rhagfyr a'r wybodaeth newydd a ddarparwyd gan C4C, rydym yn cynnig cynyddu cwotâu oriau a gwariant MoE Channel 4 i 12% o 2030 ymlaen. Fel rydym wedi'i nodi yn ein dadansoddiad, rydym o'r farn y byddai'r cynnydd hwn yn gymesur, gan ei fod yn debygol o arwain at fanteision ychwanegol i'r sector cynhyrchu yn y gwledydd gan gadw hyblygrwydd masnachol a chreadigol priodol i C4C ar yr un pryd er mwyn iddo allu cyflawni ei gylch gwaith ar gyfer cynulleidfaoedd dros gyfnod nesaf y drwydded.
- 4.100 Rydym hefyd yn credu ei bod yn bwysig bod C4C yn cynnig mwy o dryloywder ynglŷn â'i ddull o gomisiynu ym mhob un o'r gwledydd. Felly, rydym yn cynnig rhoi rhagor o arweiniad ar yr hyn rydym yn disgwyl i C4C ei nodi yn ei SMCP ynglŷn â'i ddull o gomisiynu ym mhob gwlad unigol. Byddai hyn yn ein galluogi i graffu'n fanylach ar berfformiad C4C yn ein Hadroddiadau SMCP, ochr yn ochr â'n gwaith parhaus o fonitro gwariant ac oriau Channel 4 ym mhob un o'r gwledydd.
- 4.101 Rydym yn croesawu barn a thystiolaeth rhanddeiliaid ar ein cynigion.
- 4.102 Nid ydym wedi gwneud penderfyniadau ynghylch yr un o'r cynigion a wnaed yn ymgynghoriad mis Rhagfyr eto. Byddwn yn cyhoeddi datganiad sy'n penderfynu ar hyd ac amodau trwydded newydd Channel 4 yn yr hydref.

### **Cwestiynau 3 a 4 yr ymgynghoriad:**

3. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion canlynol:

a) nes 31 Rhagfyr 2029, bydd yn rhaid i o leiaf 9% o'r oriau o raglenni ym mhob blwyddyn galendr a gaiff eu gwneud yn y DU i'w gwyllo ar wasanaeth Channel 4 gael eu cynhyrchu y tu allan i Loegr, ac y bydd yn rhaid i o leiaf 9% o'r gwariant ar raglenni a gaiff eu gwneud yn y DU i'w gwyllo ar y gwasanaeth gael ei ddyrannu i gynhyrchu rhaglenni y tu allan i Loegr ac yn berthnasol i gynhyrchu rhaglenni mewn canolfannau cynhyrchu yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon?

b) o 1 Ionawr 2023 ymlaen, bydd yn rhaid i o leiaf 12% o'r oriau o raglenni ym mhob blwyddyn galendr a gaiff eu gwneud yn y DU i'w gwyllo ar wasanaeth Channel 4 gael eu cynhyrchu y tu allan i Loegr, ac y bydd yn rhaid i o leiaf 12% o'r gwariant ar raglenni a gaiff eu gwneud yn y DU i'w gwyllo ar y gwasanaeth gael ei ddyrannu i gynhyrchu rhaglenni y tu allan i Loegr ac yn berthnasol i gynhyrchu rhaglenni mewn canolfannau cynhyrchu yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon?

4. Ydych chi'n cytuno â'n canllawiau arfaethedig i C4C ar y ffordd y dylai adrodd ar ei gynyrchiadau MoE yn ei SMCP?

Rhowch resymau dros eich ymatebion, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol.

Dim ond crynodeb lefel uchel byr yw'r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae'r cynigion rydym yn ymgynghori yn eu cylch a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

# A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

---

- A1.1 Hoffai Ofcom gael eich safbwyntiau a'ch sylwadau ar y materion a godir yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 16 Awst 2024.
- A1.2 Gallwch lawrlwytho ffurflen ymateb yn <https://www.ofcom.org.uk/cy/tv-radio-and-on-demand/public-service-broadcasting/channel-4-licence-renewal-reconsultation>. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.
- A1.3 Os bydd eich ymateb ar ffurf ffeil fawr, neu os bydd yn cynnwys siartiau, tablau neu fathau eraill o ddata ategol, gofynnwn i chi ei anfon drwy e-bost i [Channel4LicenceRenewal@ofcom.org.uk](mailto:Channel4LicenceRenewal@ofcom.org.uk), fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn ddilys ar ôl 16 Awst 2024.
- A1.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan nodi teitl yr ymgynghoriad arnynt:
- Channel 4 Licence Renewal Team  
Ofcom  
Riverside House  
2A Southwark Bridge Road  
Llundain SE1 9HA
- A1.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:
- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
  - gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.
- A1.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).
- A1.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.
- A1.8 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.
- A1.9 Byddai'n ddefnyddiol pe gallai eich ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad 4. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe bai modd i chi esbonio pam rydych yn arddel eich safbwyntiau, a beth fyddai effaith cynigion Ofcom yn eich barn chi.

- A1.10 Os hoffech drafod y materion a'r cwestiynau a godir yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â [Thîm Adnewyddu Trwydded Channel 4](#).

## Cyfrinachedd

---

- A1.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.
- A1.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fydddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhwch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid inni olygu'ch ymateb.
- A1.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.
- A1.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.
- A1.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

---

- A1.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn ystod Hydref 2024. Bydd y datganiad hwn yn nodi penderfyniadau Ofcom ynghylch y cynigion yn ymgynghoriad mis Rhagfyr 2023 a'r ymgynghoriad hwn.
- A1.17 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau drwy'r post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

---

- A1.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosib ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.
- A1.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn [consult@ofcom.org.uk](mailto:consult@ofcom.org.uk). Rydym wrth ein bodd o gael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A1.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

A1.21 Corporation Secretary  
Ofcom  
Riverside House  
2a Southwark Bridge Road  
London SE1 9HA  
E-bost: [corporationsecretary@ofcom.org.uk](mailto:corporationsecretary@ofcom.org.uk)

# A2. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

---

A2.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgysiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

---

- A2.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym ni'n ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.
- A2.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosib i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.
- A2.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosib ein cynigion.
- A2.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosib yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.
- A2.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

---

A2.7 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.

# A3. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## Manylion sylfaenol

---

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

---

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau dros hynny

- Dim
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd
- Ymateb cyfan
- Sefydliad
- Rhan o'r ymateb

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

-----  
-----

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodedb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw       Nac ydw

## Datganiad

---

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosib y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.



Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw'ch ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw      Llofnod (os darperir copi caled)

# A4. Cwestiynau'r ymgynghoriad

A4.1 Rydym yn gofyn am sylwadau ar ein cynigion a'r rhesymeg. Rhowch resymau dros eich ymateb ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol.

## **Cwestiwn 1:**

Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r effaith bosibl ar grwpiau penodol o bobl?

## **Cwestiwn 2:**

Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r effaith ar y Gymraeg?

## **Cwestiwn 3:**

Ydych chi'n cytuno â'r cynigion canlynol:

a) nes 31 Rhagfyr 2029, bydd yn rhaid i o leiaf 9% o'r oriau o raglenni ym mhob blwyddyn galendr a gaiff eu gwneud yn y DU i'w gwyllo ar wasanaeth Channel 4 gael eu cynhyrchu y tu allan i Loegr, ac y bydd yn rhaid i o leiaf 9% o'r gwariant ar raglenni a gaiff eu gwneud yn y DU i'w gwyllo ar y gwasanaeth gael ei ddyrannu i gynhyrchu rhaglenni y tu allan i Loegr ac yn berthnasol i gynhyrchu rhaglenni mewn canolfannau cynhyrchu yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon?

b) o 1 Ionawr 2023 ymlaen, bydd yn rhaid i o leiaf 12% o'r oriau o raglenni ym mhob blwyddyn galendr a gaiff eu gwneud yn y DU i'w gwyllo ar wasanaeth Channel 4 gael eu cynhyrchu y tu allan i Loegr, ac y bydd yn rhaid i o leiaf 12% o'r gwariant ar raglenni a gaiff eu gwneud yn y DU i'w gwyllo ar y gwasanaeth gael ei ddyrannu i gynhyrchu rhaglenni y tu allan i Loegr ac yn berthnasol i gynhyrchu rhaglenni mewn canolfannau cynhyrchu yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon?

## **Cwestiwn 4:**

Ydych chi'n cytuno â'n canllawiau arfaethedig i C4C ar y ffordd y dylai adrodd ar ei gynyrchiadau MoE yn ei SMCP?